

## 2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A201012	01-12-2020	Mr O Jones	Change of Use of Agricultural Land to Glamping Pod site	Fields South East of Pantyfod, Llanddewi Brefi, Tregaron. SY25 6PE	Refuse
2	A210384	15-04-2021	Mrs A Jaques-Clarke & Miss L J Bennett	Change of use and conversion of redundant agricultural building to a children's nursery.	Redundant Outbuilding @ Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, SA38 9EX	Refuse
3	A220035	10-01-2022	Mr and Mrs G & B Davies	Erection of a rural enterprise dwelling and workshop.	Fferm Cwmcoedog, Mydroilyn, Lampeter, SA48 7RL	Refuse
4	A220250	27-03-2022	Mr D J Evans	Erection of a detached block of flats, six storeys in height (sixth storey within roof space), containing 24 units with associated car parking and communal amenity spaces.	Area of land adjacent to the Brynderw Building, Stanley Road, Aberystwyth. SY23 1LB	Approve Subject to Conditions
5	A220454	21-06-2022	Mrs Mair Jenkins	Residential development of up to three dwellings.	Land At Plwmp Plwmp, Llandysul	Refuse
6	A220714	26-09-2022	Mr Matthew Vaux	Demolition of existing produce shop to be replaced with new shop and first floor flat	Parc y Pant Produce Shop, Cross Inn, New Quay. SA44 6NG	Approve Subject to Conditions
7	A220763	10-10-2022	Mr M Evans	Proposed replacement dwelling (Demolition at completion), extension to the garden area and associated works.	Allt y Bryn, Beulah, Newcastle Emlyn, SA38 9QH	Refuse

## 2.1. A201012



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A201012
<b>Derbyniwyd / Received</b>	01-12-2020
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of Use of Agricultural Land to Glamping Pod site
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Fields South East of Pantyfod, Llanddewi Brefi, Tregaron. SY25 6PE
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr O Jones, Penlanwen, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6PE
<b>Asiant / Agent</b>	Emmanuel Kincaid (Living Design Consultancy), Glyn, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6RL

## Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae Penlanwen wedi'i leoli mewn ardal cefn gwlad agored, tua milltir i'r de o bentref Llanddewi Brefi. Mae Penlanwen yn fferm fynydd 550 acer gyda diadell o 800 o ddefaidd mynydd Cymreig.

Mae safle'r cais wedi'i leoli tua 0.5km i'r dwyrain o fferm Penlanwen, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel tir pori amaethyddol.

Does dim hanes cynllunio blaenorol i'r safle.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn un llawn ac mae'n gofyn caniatâd cynllunio i ddarparu pedwar pod glampio ar gyfer llety gwyliau. Mae'r perchnogion am arallgyfeirio i gynhyrchu incwm ychwanegol at fusnes y fferm. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys trac mynediad at y podiau glampio, a gosod pecyn trin carthffosiaeth i gael gwared â charthion. Mae'r cais yn cynnwys cynllun gwarchod coed a thirwedd, sy'n cynnig plannu gwrych i sgrinio'r safle.

Mae'r podiau wedi'u gosod mewn rhes ar ben deheuol cae llethrog sy'n wynebu'r gogledd. Bydd y podiau'n cael eu gosod tua 0.5km o Benlanwen ei hun. Bydd mynediad i gerbydau ar hyd trac presennol, a mynediad o'r briffordd ar hyd y lôn unffordd annosbarthedig. Bydd y podiau'n rhai unllawr 3m o uchder at y grib. Y deunyddiau arfaethedig yw Cladin Pren Naturiol gyda ffenestri a drysau uPVC llwyd.

Cyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygiad ac Anghenion Twristiaeth i gefnogi'r cais.

## POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisiau Cynllunio Cenedlaethol perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)
- PPW11 Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 11, Chwefror 2021)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

Mae'r polisiau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu Mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- LU14 Safleoedd Llety Twristiaeth Ledled y Sir: Carafannau Statig a Theithiol, Lleiniau Gwersylla, Cabanau a Chalets
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirlunio
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

## DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhellid, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

## YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi – Dim Ymateb

Priffyrdd – Dim Gwrthwynebiad Yn Unol ag Amodau

Draenio Tir – Dim Gwrthwynebiad, Angen Cymeradwyaeth SuDS

Ecoleg – Cynhaliwyd Prawf o Effaith Arwyddocaol Debygol (TLSE) ac Asesiad Priodol am fod safle'r cais yn agos at ACA Afon Teifi. Cafodd y cynnig ei sgrinio fel un nad oedd yn debygol o gael effaith ar Afon Teifi o ganlyniad i ollwng mwy o ffosffad i'r afon. Dim gwrthwynebiad yn amodol ar gontract.

Naturiol Cymru – Rydym wedi adolygu'r Asesiad Priodol ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar ACA Afon Teifi. Nid oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig.

## Sylwadau Trydydd Parti

Derbyniwyd tri llythyr o gefnogaeth i'r cais.

Derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu gosod y podiau mor bell oddi wrth y brif fferm.

## CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: *"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise"*.

Mae safle'r cais wedi'i leoli o fewn cefn gwlad agored a nodir ei fod o fewn 'lleoliadau eraill' fel y'u diffinnir yn y CDLI mabwysiedig. Mae polisiâu lleol a chenedlaethol yn nodi y dylai datblygiadau o fewn 'lleoliadau eraill' fod dan reolaeth lem, i sicrhau bod yna ddatblygu cynaliadwy ac i amddiffyn nodweddion cefn gwlad agored.

Mae Polisi S04 y CDLI yn cyfeirio at ddatblygu o fewn 'lleoliadau eraill' ac yn nodi bod angen rhywfaint o ddatblygu i ddiwallu anghenion cymunedau presennol, ond fe'u hystyrir yn leoliadau llai cynaliadwy ar gyfer datblygu. O ganlyniad, mae maen prawf 4 yn gofyn bod unrhyw ddatblygiad o fewn 'lleoliadau eraill' yn nhermau ei leoliad ffisegol, yn cydymffurfio â TAN 6. Mae'r cynnig yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ffermio ym Mhenlanwen, ac fel y cyfryw, mae'n bodloni gofynion TAN 6 a Pholisi S04.

Er nad oes unrhyw bolisi penodol yn ymwneud â chynigion glampio o fewn y CDLI, ystyrir ei bod hi'n rhesymol asesu'r datblygiad dan Bolisi LU14, sy'n cyfeirio at safleoedd gweryslla a chalets. Mae safle'r cais wedi'i leoli tu allan i'r ardal arfordirol am ei fod i'r dwyrain o'r A487 ac felly mae'n dod dan ofynion Polisi LU14.

Yn ôl Polisi LU14, y tu allan i'r ardal arfordirol :

a. Caniateir safleoedd newydd ar gyfer carafannau teithiol, gwersylla a llety cabanau ar yr amod:

i. Y bydd hynny, lle bo modd, yn cefnogi canolbwyntiau twristiaeth strategol;

ii. Y bydd yn cefnogi rôl a swyddogaeth yr anheddiad y bwriedir lleoli'r safle ynddo (neu, fel arall, yr anheddiad agosaf), lle mae'n bosibl, drwy ddarparu cyfleusterau ychwanegol sydd ar gael at ddefnydd y gymuned;

iii. Nad yw'r cyfleusterau a gynigir drwy'r safle yn effeithio ar ddichonoldeb gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn yr anheddiad agosaf; a

iv. Bod Asesiad o'r Effaith ar Ddatblygiad ac Anghenion Twristiaeth yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae Rhan 7.90 o'r CDLI yn nodi:

*"Mewn ardaloedd y tu allan i Ardal yr Arfordir, caniateir safleoedd newydd ar gyfer carafannau teithiol, gan gynnwys cartrefi modur, a meysydd gwersylla, cyn belled â'u bod yn briodol i'r lleoliad. Dylai safleoedd mwy o faint gael eu lleoli o fewn neu gerllaw Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig, lle dylai amrywiaeth ehangach o gyfleusterau a gwasanaethau fodoli'n barod. Gellir lleoli safleoedd llai, nad ydynt efallai ond yn darparu 5 llain ac yn cynnig cyfleusterau sylfaenol, mewn Aneddiadau Cyswllt neu gerllaw ffermydd, os ydynt wedi'u sgrinio'n briodol. Mae'r drefn hon yn cydfynd â Pholisïau S02-S04."*

Mae polisïau ategol yn cefnogi safleoedd glampio llai ar yr amod eu bod wedi'u lleoli gerllaw ffermydd, er budd y dirwedd ac at ddibenion swyddogaethol. Ni ystyrir bod y cynnig wedi'i leoli gerllaw'r fferm. Bydd y podiau wedi'u gosod tua 450m i ffwrdd o'r fferm, gyda nifer o gaeau'n gwahanu'r datblygiad arfaethedig oddi wrth fferm Penlanwen ei hun. Dylai'r podiau glampio fod wedi'u gosod yn nes at y gweithgareddau amaethyddol ym Mhenlanwen at ddibenion swyddogaethol, i helpu i reoli safle wersylla fach, ac i leihau effaith y datblygiad ar y dirwedd mewn lleoliad cefn gwlad agored.

Mae'r cais yn cynnwys ystyriaethau dilyniannol i gyflawnhau safle arfaethedig y podiau glampio. Mae'r materion a godwyd yn y prawf dilyniannol yn cynnwys cyfyngiadau topograffaid, fferm foch gerllaw, tir anaddas a chyfyngiadau o ran y briffordd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y gellid gosod y podiau'n nes at y ffem ei hun. Dylai'r ymgeiswyr edrych ar opsiynau i leoli'r podiau glampio mewn man llai amlwg gerllaw fferm Penlanwen.

Ar hyn o bryd nid yw'r podiau wedi'u lleoli gerllaw fferm Penlanwen, ac felly nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi LU14 y CDLI

Yn ogystal, mae safle'r cais wedi'i leoli mewn man agored, amlwg, gyda golygfeydd yn ymestyn dros Ddyffryn Teifi a thu hwnt. Mi fydd y podiau wedi'u gosod yn agos at y grib ar lethr gogledd orllewinol sy'n wynebu'r dyffryn, a byddant i'w gweld o'r briffordd a thu hwnt. Mi allai lleoliad y podiau amharu ar olwg yr ardal a byddant yn elfen anodweddiadol o leoliad cefn gwlad agored, sydd heb ei ddatblygu fel arall. Mae paragraff 3.34 o Bolisi Cynllunio Cymru'n dweud, "*Rhaid cadw a gwella cefn gwlad, yn unol â datblygu cynaliadwy ac egwyddorion cynllunio cenedlaethol, ar gyfer ei werth fel tirwedd*". Ystyrir bod adeiladu llwybr mynediad newydd a 5 pod glampio mewn lleoliad gwledig agored, i ffwrdd o unrhyw adeiladau, yn gyfystyr â datblygu gwasgaredig o fewn cefn gwlad agored nad yw'n cadw nac yn gwella'r dirwedd, ac sy'n cael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal. Mae'r datblygiad felly yn mynd yn groes i nodau polisïau cenedlaethol a pholisïau DM06 a DN17 y CDLI.

O ran ystyriaethau perthnasol eraill, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o bersbectif priffyrdd, draenio nac ecoleg. Am fod y safle'n agos at ACA Afon Teifi, cafodd y cynnig, gan gynnwys y trefniadau carthffosiaeth, ei sgrinio am ei botensial i gynyddu'r ffosffad a ollyngir i'r ACA. Daeth y TLSE a'r Asesiad Priodol i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr ACA.

Nodwyd y sylwadau o gefnogaeth a gwrthwynebiad gan drydydd partion.

Cyn adroddwyd y cais i'r Pwyllgor, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr asiant yn ceisio cyfiawnhau lleoliad y cais a pham na ellid ystyried safle arall yn nes at y fferm ynghyd â engreiffiau o geisiadau eraill â gymeradwywyd a oedd cryn bellter wrth y brif fferm.

Roedd y rhesymau a roddwyd yn erbyn ystyried safleoedd a oedd yn agosach at y fferm yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith fod tir sy'n nes at y fferm yn serth, yn gorsiog ac yn anaddas ar gyfer podiau. Darparwyd gwybodaeth hefyd a oedd yn ceisio dangos y byddai'r rhaid diystyru safleoedd sy'n agosach at Benlanwen oherwydd na allent gydymffurfio â gofynion CNC ynghylch gollyngiadau ffosffad. Fodd bynnag, ni ellid diystyru addasrwydd y safleoedd hyn heb gynnal ARhC.

Roedd y wybodaeth hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gyfraith achosion a oedd yn nodi nad oedd y testun ategol yn bolisi ac felly ni allai'r ACLI fynnu bod unrhyw gais yn gyfagos i'r fferm fel yr awgrymwyd yn y testun. Mewn ymateb, cydnabyddir na ellir ystyried y testun ategol fel polisi ei hun ond fel gwybodaeth ategol sy'n ceisio cynorthwyo dehongli'r polisi ei hun. Serch

hynny, nodir er nad yw'r testun ategol efallai'n rhan o'r polisi, mae PCC yn berthnasol wrth ystyried y cais ac yn nodi bod yn rhaid i unrhyw gynnig gydymffurfio â gofynion PCC a TAN6. Mae PCC a TAN6 yn nodi y dylai datblygiadau fod o fewn cyfadeiladau fferm ac nid mewn lleoliad cefn gwlad agored.

I gloi, mae'r egwyddor o ddatblygu safle glampio bach ym Mhenlanwen fel rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol yn un a gefnogir gan bolisiâu lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r safle wedi'i leoli gerllaw'r fferm ei hun nac unrhyw adeiladau eraill, ac fel y cyfryw, mae'r datblygiad yn mynd yn groes i Bolisi LU14. Mae'r safle mewn lleoliad amlwg o fewn ardal cefn gwlad agored, ar lethr gyda golygfeydd yn ymestyn dros y dyffryn; byddai 4 pod glampio a'r ffordd fynediad yn amharu ar gymeriad y dirwedd, ac mae'n gyfystyr â datblygu gwasgaredig o fewn cefn gwlad agored. Mae'r datblygiad felly yn mynd yn groes i bolisiâu DM06 a DM17 y CDLI.

#### **RHESYMAU DROS GYFEIRIO'R MATER AT SYLW'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w ystyried gan fod yr aelod lleol, y Cynghorydd Rhodri Evans, wedi datgan diddordeb yn y cais.

#### **ARGYMHELLIAD:**

GWRTHOD y cais ar sail y ffaith ei fod yn mynd yn groes i bolisi LU14 y CDLI. Bydd y cynnig hefyd yn cael effaith andwyol ar gymeriad cefn gwlad agored y dirwedd, ac mae felly'n mynd yn groes i bolisiâu DM06 a DM17 y CDLI.

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A201012
<b>Derbyniwyd / Received</b>	01-12-2020
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of Use of Agricultural Land to Glamping Pod site
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Fields South East of Pantyfod, Llanddewi Brefi, Tregaron. SY25 6PE
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr O Jones, Penlanwen, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6PE
<b>Asiant / Agent</b>	Emmanuel Kincaid (Living Design Consultancy), Glyn, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6RL

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

Penlanwen lies in an open countryside location, approximately 1 mile to the south of the village of Llanddewi Brefi. Penlanwen is a 550 acre hill farm, which has a flock of 800 welsh mountain ewes.

The application site itself lies some 0.5km to the south of Penlanwen farm, and is currently used as agricultural grazing land.

The site has no former planning history.

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application is in full and seeks planning permission for the provision of four glamping pods for holiday purposes. The owners wish to diversify in order to generate additional income into the farming business. The proposal also includes an access track to serve the glamping pods and the installation of a package treatment plant to dispose of foul sewage. The application includes a landscape and tree protection plan, which proposes hedge planting to screen the proposal.

The pods are positioned in a row on the southern end of the sloping field, which faces north. The pods will be sited approx. 0.5km from Penlanwen itself. Vehicle access is gained from an existing track and highway access from the unclassified single-track road. The pods will be single storey and are 3m high to ridge. The proposed materials are Natural Timber Cladding with Grey uPVC windows and doors.

The application is supported by a Tourism Needs and Development Impact Assessment.

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Relevant National Planning Policy:

- Future Wales - The National Plan 2040 (2021)
- PPW11 Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in 'Linked Settlements and Other Locations'
- LU14 Countywide Tourism Accommodation Sites: Static and Touring Caravans, Camping Pitches, Cabins and Chalets
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM17 General Landscape

## OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

### CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

### EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment;

pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

## **WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## **CONSULTATION RESPONSES**

Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi Community Council – No Response

Highways – No Objection Subject to Conditions

Land Drainage – No Objection, SuDS Approval required

Ecology – A Test of Likely Significant Effects (TLSE) and Appropriate Assessment was undertaken in view of the application's site proximity to the River Teifi SAC. The proposal was screened out as not likely to have an impact on the river Teifi from increased phosphate discharge. No objections STC.

NRW - We have reviewed the Appropriate Assessment and your conclusions that as a result of the proposal there would be no adverse effects on the integrity of the River Teifi SAC. NRW offer no objection to the proposal.

## **Third Party Representations**

Three letters were received in support of the application.

One letter was received in objection to the siting of the proposal some distance away from the main farm holding.

## **CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

The application site lies in the open countryside and identified as being within 'other locations' as set out in the adopted LDP. National and local planning policy outlines that development in 'other locations' should be strictly controlled in the interest of achieving sustainable development and protecting the qualities of the open countryside.

LDP Policy S04 refers to development in 'other locations' and states that they require a degree of development to meet the needs of existing communities, but they are considered to be less sustainable locations for development. As a result, criterion 4 requires all development, in terms of both its physical location, within 'other locations' to accord with TAN6. The proposal forms part of an agricultural diversification scheme in connection with the farming activities at Penlanwen, and as such satisfies the requirements of TAN6 and Policy S04.

Whilst there is no specific policy relating to glamping proposals within the LDP, it is considered reasonable to assess the development under Policy LU14, which refers to camping sites and chalets. The application site lies outside the coastal area as it is eastwards of the A487 and is therefore subject to the requirements of Policy LU14:

Policy LU14 states that Outside the Coastal Area:

- a. New sites for touring caravans camping and cabin accommodation will be permitted provided that:*
  - i. Where possible it supports strategic tourism nodes;*



- ii. *It supports the role and function of the settlement within which it is proposed (or otherwise nearest settlement), where possible, by providing additional facilities that are available for use by the community;*
- iii. *Facilities offered via the site do not affect the vitality of services which already exist within the nearest settlement; and*
- iv. *Tourism Needs and Development Impact Assessment is submitted as part of the application process.*

Part 7.90 of the LDP states that:

*"In areas outside of the Coastal Area development of new touring caravan, which includes motorhomes, and camping sites will be permitted providing that it is appropriate in relation to the location. Larger sites should be located within or adjacent to USCs and RSCs where a wider range of facilities and services should already be present. Smaller sites, which perhaps only cater for 5 pitches and offer basic facilities, can be accommodated in Linked Settlements or adjacent to farmsteads where suitably screened. This approach accords with Policies S02-S04."*

Supporting policy supports smaller glamping sites subject to the siting being adjacent to farmsteads for both landscape and functional purposes. The proposal is not considered adjacent to the farmstead. The pods will be located approx. 450m away from the farmstead with several fields separating the proposed development from the main built form at Penlanwen. The glamping pods should be sited closer to the farming activities at Penlanwen for functional purposes to assist in managing a small camping site, and to lessen the impact of development on the landscape in an open countryside location.

The application includes a sequential approach to justify the proposed siting of the glamping pods. The issues raised in the sequential test includes topographical constraints, a nearby pig farm, and unsuitable land and highway constraints. However, the Local Planning Authority are of the opinion that the pods could be sited closer to the farmstead. The applicants should explore options to locate the glamping pods in a less intrusive location adjacent to the farmstead at Penlanwen.

Currently, the pods are not sited adjacent to the farmstead of Penlanwen, as such the proposal falls short of Policy LU14 of the LDP.

Additionally, the application site is located in an open visually prominent location with wide reaching views over the Teifi Valley and beyond. The pods will be sited close to the ridgeline on a north western facing slope facing the valley and will be visible from the highway and further afield. The setting of the pods could be visually obtrusive and will present an uncharacteristic element in an otherwise undeveloped open countryside location. Planning Policy Wales paragraph 3.34 states, *"The countryside in line with sustainable development and national planning principles must be conserved, and enhanced for its landscape value"*. Constructing a new access path and five glamping pods in an exposed rural location away from any built form is considered sporadic development in the open countryside and would fail to conserve or enhance the landscape and detrimentally impact the character of the area. The development is therefore in conflict with national policy aims and policies DM06 and DM17 of the LDP.

With regard to other material considerations, no objections were received to the proposal from a highway, drainage or ecological perspective. In view of the site's proximity to the River Teifi SAC the proposal including its foul water disposal arrangements were screened in respect of potential increase in phosphates emission into the SAC. The TLSE and Appropriate Assessment concluded that there would not be an impact on the integrity of the SAC as a result of the proposal.

The third party correspondence of support and objection are noted.

Prior to reporting the application to Committee, additional information was received from the agent seeking to justify the location of the proposal and why other site closer to the farmstead could not be considered together with examples of similar applications which were approved where the application sites were some distance from the main farmstead.

Reasons as to why the site could not be closer to Penlanwen included reference to land closer to the farmstead being steep, boggy and unsuitable for pods. Information was also provided which sought to demonstrate that sites closer to Penlanwen would have to be discounted as not being able to comply with NRW requirements regarding phosphate discharges. However, the suitability of these sites could not be discounted without the undertaking of a HRA.

The information also contained reference to caselaw which indicated that supporting text was not policy and therefore the LPA could not insist on any application being adjacent the farmstead as the text suggested. In response, it is acknowledged the supporting text cannot be regarded as policy itself but rather as supporting information which seeks to aid the interpretation of the policy itself. Nevertheless, it is noted that whilst supporting text may not form part of the policy, PPW is material to the consideration of the application and states that any proposal must accord with PPW and TAN6 requirements. Both PPW and TAN6 stipulates that development should be within farm complexes and not in an open countryside location.

In conclusion, the principle of developing a small glamping site at Penlanwen as part of a farm diversification scheme is supported by both National and local policy. However, the proposal is not sited adjacent to the farmstead or any built form, as such; the development runs contrary to Policy LU14. The site is in an exposed and prominent open countryside location

on the hillside with wide ranging views over the valley; the proposed 4 glamping pods and access road will detriment the character of the landscape and constitutes sporadic development in the open countryside. The development is therefore in conflict with policies DM06 and DM17 of the LDP.

**REASONS FOR REFERRAL TO THE DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE:**

The application is reported to the Development Management Committee for consideration as the local member, Cllr Rhodri Evans, has declared his interest in the application.

**RECOMMENDATION:**

To REFUSE the application on grounds of being contrary to policies LU14 of the LDP. The proposal will also have a detrimental impact on the open countryside character of the landscape, and is therefore in conflict with policies DM06 and DM17 of the LDP.

## 2.2. A210384



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A210384
<b>Derbyniwyd / Received</b>	15-04-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of use and conversion of redundant agricultural building to a children's nursery.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Redundant Outbuilding @ Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, SA38 9EX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mrs A Jaques-Clarke & Miss L J Bennett, Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9EX
<b>Asiant / Agent</b>	Mr M Edwards (Castle Arch. Designs Ltd), Bank House, 9 Bridge Street, Newcastle Emlyn , Newcastle Emlyn , SA38 9DX

## Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Lleolir safle'r cais wrth ochr ffordd dosbarth C sy'n uno Troedraur â Hawen, Rhydlewis, ac mae wedi'i leoli i'r de-ddwyrain o bentref Brongest. Mae'n cynnwys ffermdy deulawr gydag ystod o adeiladau allanol gwag a buarth cysylltiedig i'r gogledd o'r annedd. Yr adeilad allanol dan sylw yn y cais hwn yw'r adeilad allanol pellaf i'r gogledd.

Amgylchynir y safle gan gaeau amaethyddol, gydag afon Crynant yn union i'r gogledd. Yr eiddo cyfagos agosaf yw fferm Troedraur sydd wedi'i lleoli tua 300 metr i'r gogledd, ac eiddo Aelybryn sydd wedi'i leoli tua 260 metr i ffwrdd i'r de.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio, yn amodol ar amodau ar 22-10-2001 ar gyfer trosi adeilad allanol arall ar y safle i fod yn annedd (A010799). Nid oes unrhyw waith wedi'i wneud ar yr adeilad allanol hwn.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd a throsi adeilad amaethyddol gwag i fod yn feithrinfa i blant. Mae'r cais yn rhannol ôl-weithredol gan i'r gwaith i'r adeilad allanol ddechrau ym mis Rhagfyr 2020.

Mae'r adeilad yn mesur tua 14 metr wrth 7 metr ac mae'n un llawr gydag uchder crib yn mesur tua 5.3 metr. Eir i mewn i'r adeilad trwy risiau yn y blaen. Yn fewnol bydd yr adeilad yn darparu ystafell synhwyaidd, ystafell storio, cegin, ardal meithrinfa/gweithgareddau/chwarae, swyddfa, cyntedd a thoiled.

Bydd mynediad i'r safle o'r fynedfa bresennol i'r de o'r adeilad a darperir parcio o fewn ardal y buarth i'r de o'r adeilad. Bydd ardal awyr agored yn cael ei darparu i'r gorllewin rhwng y ffordd a'r adeilad, a hefyd i'r gogledd o'r adeilad.

Mae Datganiad Cynllunio a Chynllun Busnes wedi'u cyflwyno gyda'r cais. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi y bydd y busnes a enwir yn 'Mini Explorers Childcare' yn darparu lleoliad gofal plant dwyieithog, gyda'r bwriad o agor ym mis Medi 2021. Bydd y busnes ar agor bob dydd o'r wythnos rhwng 8:00am a 6:00pm am 50 wythnos o'r flwyddyn a'i nod yw darparu ar gyfer 8-16 o blant ar gyfartaledd yn y lleoliad. Ers lansio gwefan a thudalen Facebook y busnes ym mis Ionawr 2021, dywedir eu bod yn derbyn tua 5 ymholiad gan rieni ynghylch gofal plant. O fis Chwefror 2021, mae gan y busnes 5 plentyn wedi'u rhag-gofrestru. Bydd y busnes yn darparu gofal diwrnod llawn / hanner diwrnod, gofal cofleidiol a gofal gwyliau. O ran staffio, bydd y cwmni'n eiddo i'r ymgeiswyr (Laura-Jayne Bennett ac Abby Jacques-Clare) ac yn cael ei redeg ganddynt, a'r amcanion dros y 2 flynedd nesaf yw cyflogi 5 aelod o staff (1-2 prentis a 3 lleoliad profiad gwaith).

## POLISIŌAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

### Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Genedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021)
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: Datblygu Economaidd

### Polisi Cynllunio Lleol Perthnasol

Mae'r polisiâu canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- LU22 Darpariaeth Gymunedol
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

Canllawiau Cynllunio Atodol Perthnasol a fabwysiadwyd:

- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio CSC
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur
- Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabled; aillbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl sydd mewn grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, nac ydyw'n cael effaith arnynt, yn fwy nag unrhyw berson arall.

### DEDDF LLESIAENT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn i ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## YMATEBION YMGYNGHORI

- **Cyngor Cymuned Troedraur** - Dim gwrthwynebiad
- **Priffyrdd** – Dim gwrthwynebiad yn destun amodau
- **Draeniad Tir** - Dim gwrthwynebiad, cyngor safonol
- **Ecoleg** – Heb wneud sylw
- **Rheoli Adeiladu** - Dim gwrthwynebiad
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Dim gwrthwynebiad

Derbyniwyd 21 llythyr o gefnogaeth gan drydydd partiön mewn perthynas â'r cais, gan nodi'r angen am y cyfleuster a'r buddion economaidd cysylltiedig.

## CASGLIAD

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi os oes angen rhoi sylw i'r cynllun datblygu at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau cynllunio rhaid i'r penderfyniad fod yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn nodi fel arall.

## Egwyddor Datblygu

Mae'r safle ymgeisio y tu allan i anheddiad a nodwyd ac felly mae o fewn 'Lleoliadau Eraill' fel y'u nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae Polisi CDLI S01 yn cyfarwyddo'r rhan fwyaf o'r twf i'r Canolfannau Gwasanaethau gan mai dyma'r lleoliad mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu, gyda darpariaeth ar gyfer rhywfaint o ddatblygu yn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill er mwyn diwallu anghenion y cymunedau gwledig. Mae datblygiadau o fewn 'Lleoliadau Eraill' yn destun polisiâu cynllunio llym oherwydd eu lleoliad anghynaliadwy a'r angen i ddiogelu cefn gwlad. Mae Polisi S04 y CDLI yn nodi'r math o ddatblygiad a ganiateir o fewn 'Lleoliadau Eraill' gyda maen prawf 4 yn ei gwneud yn ofynnol i bob math o ddatblygiad, o ran ei leoliad ffisegol, gyd-fynd â gofynion TAN 6. Mae TAN 6 yn cyfeirio'n bennaf at fusnesau menter wledig ar y tir a datblygiad amaethyddol a choedwigaeth, y mae angen eu lleoli yng nghefn gwlad yn ôl eu natur.

Nid yw'r cynnig yn cyd-fynd â TAN 6, gan nad yw meithrinfa plant yn gymwys fel busnes menter wledig gan nad oes angen i'r busnes gael ei leoli yng nghefn gwlad. O ganlyniad nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â pholisi S04 y CDLI.

Mae Polisi LU22 y CDLI sy'n cyfeirio at ddarpariaeth gymunedol hefyd yn berthnasol i'r cynnig hwn. Mae maen prawf 1 yn cefnogi datblygiad darpariaeth gymunedol gynaliadwy newydd, ar yr amod (o berthnasedd), eu bod wedi'u lleoli mewn anheddiad neu'n gyfagos iddo; ac nad oes cyfleuster addas yn bod gerllaw a allai ddarparu'n briodol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Nid yw safle'r cais mewn anheddiad nac yn gyfagos iddo, ac nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chyflwyno fel rhan o'r cais hwn i ddangos nad oes cyfleuster addas arall gerllaw mewn anheddiad neu'n gyfagos iddo, a allai ddarparu'n briodol ar gyfer y cynnig. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â pholisi LU22 y CDLI.

O ran polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy a phriodol mewn ardaloedd gwledig. Maent yn diffinio aneddiadau gwledig cynaliadwy fel lleoedd hygyrch sydd â chysylltiadau da â'r ardaloedd ehangach y maent yn eu gwasanaethu, ac yn rhoi pwyslais cryf ar yr angen i leoli datblygiad newydd mewn ardaloedd lle gall pobl gerdded a beicio, ac sy'n llai dibynnol ar geir. Dywed PCC y dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn yr aneddiadau hynny yn gyfagos iddynt lle mae'r ddarpariaeth orau o ran seilwaith, mynediad, cadwraeth cynefinoedd a thirwedd, a bod yn rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yng nghefn gwlad agored i ffwrdd o aneddiadau presennol neu ardaloedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu. Mae'n nodi y gallai mewnlenni neu estyniadau bychain i aneddiadau presennol fod yn dderbyniol, os ydynt yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy neu os gellir dangos y bydd y cynnig yn cynyddu gweithgarwch economaidd lleol. Nid yw safle'r cais yn gyfystyr â mewnlenni na mân estyniad i anheddiad sy'n bodoli eisoes, ac mae mewn lleoliad cefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau a nodwyd.

Mae safle'r cais wedi'i leoli ar hen fuarth fferm ac mae'n defnyddio hen adeilad amaethyddol. Dywed PCC y dylai Awdurdodau Cynllunio fabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at drosi adeiladau gwledig i'w haildefnyddio gan fusnesau. Mae TAN 23 yn nodi bod gan aildefnyddio ac addasu adeiladau gwledig presennol rôl bwysig wrth ddiwallu anghenion ardaloedd gwledig ar gyfer datblygiad masnachol a diwydiannol, a thwristiaeth, chwaraeon a hamdden. Wrth gydnabod hyn, mae'n nodi bod disgwyl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fabwysiadu agwedd gadarnhaol at drawsnewid adeiladau gwledig i'w haildefnyddio ar gyfer busnes, ar yr amod:

- eu bod yn addas ar gyfer y defnydd penodol;
- nad yw'r trawsnewid yn arwain at wasgaru gweithgarwch ar raddfa sy'n amharu ar hyfywedd trefi a phentrefi;
- bod eu ffurf, eu maint a'u cynllun cyffredinol yn cyd-fynd â'u hamgylchedd;
- bod gosod amodau yn goresgyn unrhyw wrthwynebiad cynllunio, a allai fod yn fwy na'r fantais o aildefnyddio fel arall;
- bod adeiladau mewn cefn gwlad agored yn gallu cael eu trawsnewid heb waith ailadeiladu sylweddol neu ailadeiladu llwyr;
- nad yw'r trawsnewid yn arwain at effeithiau annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad lleoliad os yw'r adeilad o ddiddordeb hanesyddol a/neu bensaernïol.

Cyn i'r gwaith gael ei wneud i'r adeilad, roedd yr adeilad yn cynnwys waliau blociau concrit, llawr concrit a hytrawstiau fertigol dur ac roedd y to wedi'i dynnu. Mae'r gwaith a wnaed wedi cadw'r waliau blociau concrit, ond mae'r rhain wedi'u gorchuddio â chladin pren ac mae to newydd hefyd wedi'i godi. Cyflwynwyd adroddiad strwythurol gyda'r cais sy'n nodi ei bod yn ymddangos bod yr adeilad yn strwythurol gadarn, ac mae Swyddog Rheoli Adeiladu'r Cyngor hefyd wedi dweud bod yr adeilad yn addas ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r rhain yn seiliedig ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i'r adeilad.

Nid oedd yr adeilad, cyn i'r gwaith gael ei wneud, yn adeilad amaethyddol traddodiadol, gyda thair wal bloc concrit heb do. Nid oedd o unrhyw ddiddordeb hanesyddol na phensaernïol ac o ganlyniad nid oedd yn cyfrannu fawr ddim at y dirwedd wledig i fod yn deilwng o gael ei warchod drwy ei aildefnyddio. Yn allanol, mae'r adeilad wedi'i orchuddio â chladin pren ac mae to newydd wedi'i osod, ac felly'n weledol nid yw'n debyg i'r adeilad gwreiddiol - nad oedd yn haeddu cael ei gadw beth

bynnag. Bernir nad oedd yr adeilad, cyn i'r gwaith gael ei wneud, yn gallu cael ei addasu heb ailadeiladu sylweddol, ac felly mae'n methu â bodloni'r meini prawf a nodir yn TAN 23 uchod a'r ethos cyffredinol o gefnogi aildefnyddio adeiladau gwledig, sef gwarchod yr adeiladau gwledig sydd o ddiddordeb hanesyddol a/neu bensaernïol, oherwydd eu cyfraniad cadarnhaol fel olion hanes y dirwedd ffermio wledig yn y gorffennol. Felly, at ddibenion polisi cynllunio, dylid trin y datblygiad fel datblygiad adeiladu newydd yng nghefn gwlad, ac nid fel trawsnewid adeilad gwledig.

Fodd bynnag, ni waeth a yw'r datblygiad yn cael ei ystyried yn adeilad newydd yng nghefn gwlad neu'n drawsnewid adeilad gwledig presennol, mae lleoliad y safle ar gyfer meithrinfa plant yn groes i bolisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol.

### **Effaith weledol ar y dirwedd**

Mae Polisi DM06 y CDLI yn ceisio sicrhau bod datblygiad o ansawdd uchel ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad ac mae Polisi DM17 y CDLI yn ceisio diogelu'r dirwedd rhag effeithiau andwyol sylweddol a achosir gan ddatblygiadau newydd.

Mae'r datblygiad wedi'i leoli ar yr hen fuarth, ac mae wedi'i leoli ar dir uchel, yn ymyl ffordd sirol. Mae graddfa a ffurf gyffredinol yr adeilad yn debyg i'r adeilad gwreiddiol, ac ystyrir bod dyluniad a deunyddiau'r adeilad ei hun hefyd yn dderbyniol. Felly, nid oes unrhyw wrthwynebiad i ymddangosiad yr adeilad ei hun. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r safle fel meithrinfa i blant yn cynnwys datblygiadau cysylltiedig megis maes parcio, arwyddion, gofod amwynder awyr agored, sy'n cyflwyno datblygiad sy'n anghydnaws â chyd-destun y safle, fel hen fuarth fferm a'i leoliad yng nghefn gwlad. Felly, ni ystyrir bod y datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad a bydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd, yn groes i bolisiâu DM06 a DM17 y CDLI.

### **Dylunio a Thirweddu**

Mae Polisi DM09 y CDLI yn nodi y dylid cynllunio datblygiad i sicrhau amgylchedd croesawgar sy'n annog symud yn briodol drwyddo, ac sy'n cynnwys egwyddorion dylunio 'cynhwysol' i ddarparu mynediad i bob defnyddiwr. Mae'r cynnig yn cynnwys parcio wrth ymyl yr adeilad a darperir llwybr o'r maes parcio i'r adeilad lle mae mynediad i'r adeilad trwy ramp, neu risiau. Mae'r cynnig hefyd yn darparu toiled i'r anabl. O ganlyniad, ystyrir bod y cynnig yn darparu amgylchedd croesawgar ac yn cynnwys egwyddorion dylunio 'cynhwysol', i ddarparu mynediad i bawb, yn unol â pholisi DM09.

Mae Polisi DM10 y CDLI yn gofyn i bob datblygiad, ac eithrio ar gyfer datblygiadau deiliaid tai, a fydd yn cael effaith ar y dirwedd i gael ei gefnogi gan gynllun tirweddu. Nid oes cynllun tirweddu wedi'i gyflwyno fel rhan o'r cais, ond gellir gwneud hyn yn amod os rhoddir caniatâd cynllunio.

### **Amwynder Preswyl**

Nid oes unrhyw eiddo cyfagos yn agos i safle'r cais a fyddai'n cael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig. At hynny, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan drydydd parti.

### **Priffyrdd**

Mae Polisi DM03 yn cynghori y bydd datblygiad yn cael ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio. Mae Polisi DM03 hefyd yn nodi y dylid darparu llefydd parcio fel rhan o gynigion datblygu yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Ceredigion.

Byddai mynediad i gerbydau i'r datblygiad arfaethedig drwy fynediad presennol wedi'i wella gan ddarparu 15 o lefydd parcio ar y safle. Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer troi cerbydau ar y safle fel eu bod yn mynd i mewn ac allan o'r safle heb orfod gyrru am yn ôl. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cyd-fynd â'r safonau parcio mabwysiedig fel y'u nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Mae Polisi DM04 yn tynnu sylw ymgeiswyr at yr angen i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylid cyflawni hyn drwy ddarparu cysylltiadau â llwybrau presennol o ddatblygiadau newydd, adfer seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio lle bydd hynny'n gwasanaethu datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy a darparu gwell iechyd ac ansawdd bywyd trwy ymgorffori nodweddion mewn datblygiad sy'n manteisio ar gysylltiadau â dulliau teithio heblaw car ar gyfer symud pobl a nwyddau.

Nid yw safle'r cais yn hygyrch trwy gerdded neu feicio ac nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn ei wasanaethu'n dda chwaith. Mae'r cynllun busnes yn nodi y bydd y busnes yn darparu hyd at 20 o leoedd gofal plant, gan gynnwys 7 aelod o staff, er y nodir bod un aelod o staff yn byw ar y safle. Bydd ar agor 5 diwrnod yr wythnos, am 50 wythnos y flwyddyn a bydd yn darparu gofal plant diwrnod llawn, hanner diwrnod ynghyd â gofal coffeidiol. O ganlyniad, ystyrir y byddai'r busnes yn cynhyrchu nifer sylweddol o deithiau dyddiol i'r safle ac oddi yno, a byddai pob un ohonynt yn ddibynnol ar geir.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol ar y cais ac nid yw'n cynnig gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â diogelwch priffyrdd. Fodd bynnag, ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig mewn lleoliad cynaliadwy ac nad yw'n darparu cyfle ar gyfer teithio llesol.

### **Draenio Tir a Pherygl Llifogydd**

Ystyrir bod y safle yn ardal llifogydd A fel y dangosir ar Fap Cyngor Datblygu CNC, a Pharth Llifogydd 1 fel y dangosir ar y

Map Llifogydd ar gyfer cynllunio sef yr wybodaeth ddiweddaraf a'r wybodaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â llifogydd. O'r herwydd, ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig mewn perygl o lifogydd.

Mae'r cais yn nodi y bydd suddfan dŵr sydd yno eisoes yn ymdrin â dŵr wyneb. Mae Draenio Tir y Cyngor wedi cynghori bod yn rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod gan y suddfan dŵr y capasiti i ymdopi ag unrhyw swm ychwanegol o ddŵr wyneb. Mae'r cais hefyd yn dweud bod gan yr ardal barcio cerrig wedi'u malu a gorffeniad athraidd. Ystyrir y gellir ymdrin â dŵr wyneb yn ddigonol trwy amodau cynllunio.

## Ecoleg

Mae polisïau DM14 a DM15 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a diogelu safleoedd pwysig gwarchoddedig. Ni chaniateir safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau gwarchoddedig naill ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu ar y cyd, oni ellir dangos bod y cynnig yn cyfrannu at amddiffyn, gwella neu reoli'r safle, y cynefin neu rywogaethau yn gadarnhaol, neu mewn amgylchiadau penodol eraill a nodir yn y polisi. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar fioamrywiaeth yn darparu arweiniad ar asesu effaith datblygiad ar safleoedd dynodedig neu rywogaethau gwarchoddedig.

Mae adroddiad arolwg ystlumod yn cyd-fynd â'r cais sy'n nodi nad oedd ystlumod yn defnyddio safle'r cais. Nid yw CNC wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r arolwg ystlumod.

Mae lleoliad safle'r cais o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Teifi. Mae CNC wedi dweud yn eu Datganiad Sefyllfa Cynllunio y gallai unrhyw ddatblygiad arfaethedig a allai gynyddu lefel y ffosffad o fewn dalgylch ACA afon arwain at effaith niweidiol i'r ACA. Felly, dylid sgrinio cynigion o'r fath drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) i benderfynu a ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon pe bai'r datblygiad yn cael ei gymeradwyo, y byddai'n gwasanaethu poblogaeth sydd eisoes yn byw yn nalgylch Teifi ac felly na fyddai'n arwain at gynnydd mewn ffosffad.

## Ystyriaethau Perthnasol Eraill

Mae'r Cynllun Busnes yn dweud bod yna brinder gwasanaethau gofal plant yn yr ardal leol. Mae'r Cynllun hefyd yn dangos bod galw wedi bod am fannau gofal plant lle mae rhieni eisoes wedi bod mewn cysylltiad ac wedi cadw lle i'w plant yn barod. Mae adran Gwasanaeth Ysgolion y Cyngor hefyd wedi dweud bod diffyg darpariaeth gofal diwrnod llawn ar gael yn ne'r sir, a bod gofal ar ôl ysgol a gofal gwyliau hefyd yn broblem yn ne'r sir. Mae'n amlwg felly bod galw am y datblygiad arfaethedig.

## Cydbwysedd Cynllunio

Mae galw clir am fwy o gyfleusterau gofal plant yn ne'r Sir ac felly bydd y datblygiad arfaethedig yn gwneud cyfraniad ystyrlon tuag at ateb y galw hwn. Bydd y cynnig hefyd yn darparu cyfleoedd gwaith. Mae'r rhain yn effeithiau cadarnhaol sy'n pwysu o blaid y datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gael ei leoli o fewn aneddiadau presennol neu'n gyfagos iddynt lle gellir eu cyrraedd ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn lleihau dibyniaeth ar deithiau mewn ceir preifat. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynhyrchu nifer uchel o deithiau traffig yn ôl ac ymlaen i'r safle bob dydd a dim ond trwy deithiau preifat y gellir ei gyrraedd. Mae datblygu mewn 'Lleoliadau Eraill' yn cael ei reoli'n llym, ac nid yw'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion TAN 6 gan nad yw'n fenter wledig gan nad oes angen na chyfiawnhad dros leoli meithrinfa plant yng nghefn gwlad. Nid yw'r cais ychwaith yn cael ei gefnogi gydag unrhyw dystiolaeth i ddangos pam na ellir darparu'r cynigion mewn man arall mewn anheddiad presennol neu'n gyfagos iddo. Ystyrir hefyd bod natur y datblygiad yn cyflwyno datblygiad sy'n anghydnaws ac yn anghyson o fewn ei leoliad gwledig. Felly, mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, a pholisïau cynllunio lleol, sef polisïau S01, S04, LU22, DM06, a DM17 y CDLI. O ganlyniad, at ei gilydd, nid yw effeithiau cadarnhaol y datblygiad yn gorbwysu caniatáu i'r datblygiad fynd yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

## Cynllun Dirprwyo

Mae'r Aelod Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei gyfeirio at y pwyllgor rheoli datblygu am benderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Mae angen cyfleuster gofal plant ac mae'r lleoliad yn gwasanaethu mwy nag un gymuned gan ei fod o fewn pellter cyfforddus i Landysul, Castellnewydd Emlyn a'r cyffiniau.
- Mae'r bwriad yn gwneud defnydd o adeilad presennol, y mae rheolaeth adeiladu wedi cadarnhau ei fod yn gadarn
- Mae cyngor cymuned Troedraur yn gefnogol

## ARGYMHELLIAD:

Argymhellir gwrthod y cais.



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A210384
<b>Derbyniwyd / Received</b>	15-04-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Change of use and conversion of redundant agricultural building to a children's nursery.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Redundant Outbuilding @ Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, SA38 9EX
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mrs A Jaques-Clarke & Miss L J Bennett, Crymant, Brongest, Newcastle Emlyn, Ceredigion, SA38 9EX
<b>Asiant / Agent</b>	Mr M Edwards (Castle Arch. Designs Ltd), Bank House, 9 Bridge Street, Newcastle Emlyn , Newcastle Emlyn , SA38 9DX

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site is located alongside the class C road which joins Troedyraur with Hawen, Rhydlew, and is located to the south-east of the village of Brongest. It consists of a two-storey farmhouse with a range of associated redundant outbuildings and yard area which lie to the north of the dwelling. The outbuilding the subject of this application lies is the northern most outbuilding.

The site is surrounded by agricultural fields, with the river Crynant to the immediate north. The nearest neighbouring properties is Troedyraur farm which is located approximately 300 metres to the north, and the property of Aelybryn which is located approximately 260 metres away to the south.

Planning permission was granted, subject to conditions on 22-10-2001 for the conversion of another outbuilding on the site to a dwelling (A010799). No works have been undertaken on this outbuilding.

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks planning permission for the change of use and conversion of a redundant agricultural building to a Children's Nursery. The application is part-retrospective as works to the outbuilding commenced in December 2020.

The building measures approximately 14 metres by 7 metres and is single storey with a ridge height measuring approximately 5.3 metres. The building is accessed via steps to the front elevation. Internally the building will provide a sensory room, storage room, kitchen area, nursery/activity/play area, office, lobby and WC.

The site will be accessed from the existing entrance to the south of the building with parking provided within the yard area to the south of the building. An outdoor area will be provided to the west between the road and the building, and also to the north of the building.

The application is accompanied by a Planning Statement and a Business Plan. The Business Plan states that the business named 'Mini Explorers Childcare' will provide bilingual childcare setting, which plans to open in September 2021. The business will be open every weekday from 8:00am to 6:00pm for 50 weeks of the year and aims to accommodate an average of 8-16 children at the setting. It states that since launching the business' website and facebook page in January 2021, approximately 5 enquiries regarding childcare are being received from parents. As of February 2021, the business has 5 children pre-registered. The business will provide full day / half day care, wrap-around care and holiday care. In terms of staffing, the company will be owned and run by the applicants (Laura-Jayne Bennett and Abby Jacques-Clare), and the objectives over the next 2 years is to employ 5 staff (1-2 apprentices and 3 work experience placement).

## RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

### Relevant National Planning Policy and Guidance:

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- Technical Advice Note (TAN) 5: Nature Conservation and Planning
- Technical Advice Note (TAN) 6: Planning for Sustainable Rural Communities
- Technical Advice Note (TAN) 12: Design
- Technical Advice Note (TAN) 18: Transport
- Technical Advice Note (TAN) 23: Economic Development

### Relevant Local Planning Policy

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- LU22 Community Provision DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape

Relevant adopted Supplementary Planning Guidances:

- CCC Parking Standards SPG
- Nature Conservation SPG
- Built Environment and Design SPG

## **OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

### **CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

### **EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

### **WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## **YMATEBION YMGYNGHORI / CONSULTATION RESPONSES**

- **Cyngor Cymuned Troedraur Community Council** - No objections
- **Highways** – No Objection STC
- **Land Drainage** - No objection, standard advice
- **Ecology** – Did not comment
- **Building Control** - No objection
- **Natural Resources Wales** - No objection

21 Letters of support have been received from third parties in respect of the application, noting the need for the facility and the associated economic benefits.

## **CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development

plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

## Principle of Development

The application site lies outside of an identified settlement and is therefore within 'Other Locations' as set out within the Local Development Plan (LDP). LDP Policy S01 directs the majority of growth to the Service Centres as these represent the most sustainable location for development, with provision for some development within the Linked Settlements and Other Locations in order to meet the needs of the rural communities. Development within 'Other Locations' are subject to strict planning policies due to their unsustainable location and the need to protect the countryside. LDP Policy S04 sets out the type of development that is permissible within 'Other Locations' with criterion 4 requiring all development types, in terms of its physical location, to accord with the requirements of TAN 6. TAN 6 primarily refers to land-based rural enterprise businesses and agricultural and forestry related development, which by their nature, need to be located within the countryside.

The proposal does not accord with TAN 6, as a children's nursery does not qualify as a rural enterprise business as there is no need for the business to be located within the countryside. As a result the proposal does not comply with LDP policy S04.

LDP Policy LU22 which refers to Community Provision is also relevant to this proposal. Criterion 1 supports the development of new sustainable community provision, provided that (of relevance), they are located within or adjoining a settlement; and no suitable facility exists nearby which could appropriately accommodate the proposed development. The application site is not within or adjoining a settlement, and no information has been submitted as part of this application to demonstrate that there are no other suitable facility nearby within or adjoining a settlement, that could appropriately accommodate the proposal. As a result, the proposal does not comply with LDP policy LU22.

In terms of national planning policy and guidance, The Future Wales: National Plan 2040 and Planning Policy Wales supports sustainable and appropriate economic growth in rural areas. They define sustainable rural settlements as accessible places that are well connected to the wider areas they serve, and place strong emphasis on the need for locating new development in areas where people can walk and cycle, and are less reliant on cars. PPW states that development in the countryside should be located within and adjoining those settlements where it can best be accommodated in terms of infrastructure, access, habitat and landscape conservation, and that new building in the open countryside away from existing settlements or areas allocated for development in development plans must continue to be strictly controlled. It states that infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable, where they meet a local need for affordable housing or it can be demonstrated that the proposal will increase local economic activity. The application site does not comprise infilling or minor extension to an existing settlements, and lies within an open countryside location, away from identified settlements.

The application site is located on a former farmyard and utilises a former agricultural building. PPW states that Planning Authorities should adopt a positive approach to the conversion of rural buildings for business re-use. TAN 23 states that the re-use and adaptation of existing rural buildings has an important role in meeting the needs of rural areas for commercial and industrial development, and tourism, sport and recreation. In recognising this, it states that LPA are expected to adopt a positive approach to the conversion of rural buildings for business re-use, provided that:

- they are suitable for the specific use;
- the conversion does not lead to dispersal of activity on such scale as to prejudice town and village vitality;
- their form, bulk and general design are in keeping with their surroundings;
- imposing conditions overcomes planning objections, which would otherwise outweigh the advantage of re-use;
- buildings in the open countryside are capable of conversion without major or complete reconstruction;
- the conversion does not result in unacceptable impacts upon the structure, form, character of setting where the building is of historic and / or architectural interest.

Prior to the works being undertaken to the building, the building comprised concrete block walls, concrete floor and steel vertical girders and the roof had been removed. The works undertaken have retained the concrete block walls, but these have been covered with timber cladding and a new roof has also been erected. A structural report has been submitted with the application which states that the building appears to be structurally sound, and the Council's Building Control Officer has also stated that the building is suitable for its intended use. However these are based on the works that have already been undertaken to the building.

The building, prior to the works being undertaken, did not represent a traditional agricultural building, made up of three concrete block walls with no roof. It was of no historic or architectural interest and as a result contributed little to the rural landscape to merit its protection through re-use. Externally, the building has been covered in timber cladding and a new roof has been installed, and therefore visually it bears no resemblance to the original building - which in any case did not merit its retention. It is considered that the building, prior to the works being undertaken, was not capable of conversion without major reconstruction, and therefore fails to meet with the criteria set out within TAN 23 above and the general ethos of supporting the re-use of rural buildings, which is to preserve the rural buildings that are of historic and / or architectural interest, due to

their positive contribution as a remainder of the past history of the rural farming landscape. Therefore, for the purpose of planning policy, the development should be treated as a new build development in the countryside, and not as a conversion of a rural building.

However, regardless of whether the development is considered to be a new building in the countryside or the conversion of an existing rural building, the location of the site for a children's nursery is contrary to national and location planning policies.

### **Visual Impact on the Landscape**

LDP Policy DM06 seeks to ensure that development is of a high quality and contributes positively to the context of its location and LDP Policy DM17 seeks to protect the landscape from significant adverse effects caused by new development.

The development is located on the former yard, and lies on an elevated ground, adjacent to the county road. The general scale and form of the building is similar to the original building, and the design and materials of the building itself is also considered to be acceptable. Therefore, there is no objection to the appearance of the building itself. However the use of the site as a children's nursery includes associated development such as a car park, signage, outdoor amenity space, which introduces a development that is incompatible and out of keeping with the context of the site, as a former farmyard and its location within the countryside. The development is not therefore considered to contribute positively to the context of its location and will have a significant adverse effect the landscape, contrary to LDP policies DM06 and DM17.

### **Design and Landscaping**

LDP Policy DM09 states that development should be designed to secure a welcoming environment which encourages appropriate through movement, and includes 'inclusive' design principles to provide access for all users. The proposal includes parking adjacent to the building and a path is provided from the parking area to the building where access to the building is via a ramp, or steps. The proposal also provides disabled WC. As a result, it is considered that the proposal provides a welcoming environment and includes 'inclusive' design principles, to provide access to all, in line with policy DM09.

LDP Policy DM10 requires all development, other than for householder developments, which will have an impact on the landscape to be supported by a landscaping scheme. A landscaping plan has not been submitted as part of the application, however this can be conditioned if planning permission is forthcoming.

### **Residential Amenity**

There are no neighbouring properties within close proximity to the application site that would be affected by the proposed development. Furthermore, no representations have been received from third party.

### **Highways**

Policy DM03 advises that development will be located so as to minimise the need to travel. Policy DM03 also sets out that parking provision should be provided as part of development proposals in accordance with the Ceredigion Parking Standards SPG.

Vehicular access to the proposed development would be via an improved existing access with 15 parking spaces provided on site. The proposed development would also make provision for the turning of vehicles on site as to enter and exit the site in the forward gear. The proposal is therefore considered to accord with the adopted parking standards as set out in the SPG.

Policy DM04 draws the attention of applicants to the need to make the most of opportunities for walking, cycling and the use of public transport. This should be achieved by providing connections to existing routes from new development, re-instating infrastructure that has fallen into disuse where that will serve new development in a sustainable way and providing improved health and quality of life by incorporating features in development that take advantage of links to non-car travel modes for human and freight movement.

The application site is not accessible by walking or cycling and is also not well served by public transport. The business plan states that the business will provide up to 20 childcare places, including 7 members of staff, although it is noted that one member of staff lives on site. It will be open 5 days a week, for 50 weeks of the year and will provide full day and half day childcare, along with wrap around care. As a result, it is considered that the business would generate a significant number of daily journeys to and from the site, all of which would be reliant on cars.

The Local Highway Authority have been consulted on the application and offer no objection to the proposed development in respect of highway safety, however it is considered that the proposed development is not sustainably located and fails to provide opportunity for active travel.

### **Land Drainage and Flood Risk**

The site is considered to be in floodzone A as shown on NRW's Development Advice Map, and Flood zone 1 as shown of the Flood map for planning which is the most up to date and best available information in respect of flooding. As such the proposed development is not considered to be at risk of flooding.

The application states that surface water will be dealt with via an existing soakaway. The Council's Land Drainage has advised that the applicant must ensure that the soakaway has the capacity to cope with any additional volume of surface water. The application also states that the parking area has permeable crushed stone and finish. It is considered that surface water can be adequately dealt with via planning conditions.

## **Ecology**

Policies DM14 and DM15 of the Local Development Plan seeks to maintain and enhance biodiversity and safeguard protected important sites. Protected sites, habitats or species either directly, indirectly or in combination will only be permitted where it can be demonstrated that the proposal contributes to the protection, enhancement or positive management of the site, habitat or species or in certain other circumstances set out in the policy. The Council's SPG on biodiversity provides guidance on assessing the impact of development on designated sites or protected species.

The application is accompanied by a bat survey report which identifies that bats were not using the application site. NRW has raised no objections to the bat survey.

The application site lies within the catchment area of the River Afon Teifi Special Area of Conservation (SAC). NRW has advised within their Planning Position Statement that any proposed development that might increase the amount of phosphate within a river SAC catchment could lead to damaging effect to the SAC. Therefore such proposals should be screened through a Habitats Regulations Assessment (HRA) to determine whether they are likely to have a significant effect on the SAC.

The Local Planning Authority are satisfied that should the development be approved, it would serve a population already resident within the Teifi Catchment and would not therefore give rise to an increase in phosphate.

## **Other Material Considerations**

The Business Plan states that there are limited childcare services within the local area. The Plan also shows that there has been demand for childcare spaces where a parents have already been in contact and provisional bookings have already been received. The Council's Schools Service department has also advised that there is a lack of full day care provision available in the south of the county, and that after school care and holiday care is also an issue in the south of the county. It is clear therefore that there is a demand for the proposed development.

## **Planning Balance**

There is a clear demand for more childcare facilities within the south of the County and therefore the proposed development will make a meaningful contribution towards meeting this demand. The proposal will also provide employment opportunities. These are positive impacts that weigh in favour of the proposed development. However, both national and local planning policies require development to be located within or adjacent to existing settlements where they can be accessed by walking, cycling and public transport, so to minimise reliant on private car journeys. The proposed development will generate a high number of daily traffic to and from the site each day and is only accessible by private journeys. Development within 'Other Locations' are strictly controlled, and the proposal does not comply with requirements of TAN 6 as it is not a rural enterprise as there is no need or justification for a children's nursery to be located within the countryside. The application is also not supported with any evidence to demonstrate why the proposals cannot be provided elsewhere within or adjacent to an existing settlement. The nature of the development is also considered to introduce a development which is incompatible and incongruous within its rural location. The proposed development is therefore contrary to national planning policies and guidance's, and local planning policies, namely LDP policies S01, S04, LU22, DM06, and DM17. As a result, on balance, the positive impacts of the development do not outweigh allowing the development contrary to national and local planning policies.

## **Scheme of Delegation**

The Local Member has requested that the application be referred to the development management committee for determination for the following reasons:

- There is a need for a childcare facility and the location serves more than one community being within comfortable distance of Llandysul, Newcastle Emlyn and surrounds.
- The proposal makes use of an existing building, which building control have confirmed is sound
- Troedyraur community council is supportive

## **ARGYMHELLIAD / RECOMMENDATION:**

The application is recommended for refusal.

## 2.3. A220035



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A220035
<b>Derbyniwyd / Received</b>	10-01-2022
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Codi annedd a gweithdy menter wledig.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Fferm Cwmcoedog, Mydroilyn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7RL
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Cynllunio Llawn
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr a Mrs G a B Davies, Llanerch Y Felin, Heol Llyswen, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0ED
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Rhys ap Dylan (Morgan & Davies), Morgan & Davies, 4 Heol Farchnad, Aberaeron, SA46 0AS

## DISGRIFIAD O'R SAFLE

Saif Fferm Cwmcoedog mewn lleoliad gwledig, ar dir uchel yn edrych dros y dyffryn cyfagos. Mae ffermdy Cwmcoedog yn annedd sengl 3 ystafell wely, mewn arddull traddodiadol, ar dir y fferm wreiddiol, wedi'i amgylchynu gan siediau amaethyddol modern a hŷn, sy'n rhannol wedi cael eu trawsnewid i ddau bwthyn gwyliau. Mae'r fferm yn gorwedd o fewn 'lleoliadau eraill' o dan y CDLI.

Saif y pump pod gwersylla a ganiatawyd o dan gais A120625 wrth ymyl buarth y fferm i'r gogledd ddwyrain.

Mae'r safle ar gyfer y cais mewn lleoliad gwledig i ffwrdd o'r ffermdy a'r ardal glampio, o fewn cae 1.29ha sy'n goleddu i lawr i gyfeiriad y gogledd i'r gogledd-ddwyrain o'r prif ffermdy.

Mae'r safle wedi'i amgylchynu ymhellach gan dir amaethyddol sy'n cael ei ffermio drwy gydol y flwyddyn ac sy'n eiddo i'r ymgeisydd. Cyflwynwyd asesiad menter wledig ochr yn ochr â'r cais hwn sy'n nodi bod safle'r cais yn cynnwys 64.36 hectar sy'n cael ei ffermio a bod 56.36 hectar yn eiddo iddynt lle mae yna amrywiaeth o stoc a chnydau gan gynnwys buchod sugno, mamogiaid bridio, hyrddod a silwair bêls mawr.

## HANES PERTHNASOL

D1.413.86 – Caniatad cynllunio amlinellol ar gyfer codi annedd i weithiwr amaethyddol - Pt OS 180, Penlanfach Fields, Cribyn Road, Mydroilyn. Caniatawyd yn unol ag amodau 26/6/1986. (A elwir yn "Bryn Aur").

D1.913.86 – Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl – Codi annedd i weithiwr amaethyddol - Pt OS 180, Penlanfach Fields, Cribyn Road, Mydroilyn. Caniatawyd yn unol ag amodau – 31/10/1986. (A elwir yn "Bryn Aur").

A120625 - Lleoliad hyd at 5 Pod Gwersylla gydag 1 Pod Ymolchi - Cymeradwywyd gydag Amodau

A210593 – Meddiannu tŷ annedd gweithiwr amaethyddol heb cydymffurfio gyda'r amod perthnasol a osodwyd ar ganiatad cynllunio 860413. Tystysgrif wedi ei rhoi ar y 10/08/2021.

Sylwch fod yr annedd ar gyfer y gweithiwr amaethyddol y cyfeiriwyd ato uchod wedi ei leoli rhyw 1.8km i ffwrdd o'r fferm, i gyfeiriad de-ddwyreiniol.

## DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Mae'r cynnig yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer codi annedd sengl a gweithdy. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos bod yr ymgeisydd yn fab i'r tîrffediannwr ac yn berchennog y busnes fferm / llety twristiaeth yn y pen draw. Mae'r ymgeisydd yn berchen ar fusnes contractio amaethyddol ar wahân ac yn ceisio adeiladu annedd ar Gwmcoedog er mwyn aros yn agos at gartref y teulu a'r fferm wrth barhau i ddatblygu ei fusnes ei hun.

Byddai'r annedd arfaethedig yn cynnwys dyluniad to talcen gyda phortsh ar yr ochr flaen a strwythurau un llawr yn y cefn wedi'u gorffen gyda brics a chladin pren. Byddai'r annedd arfaethedig yn mesur 8.4m o ddyfnder x 16.85m o led x 8.7m o uchder, byddai'r portsh arfaethedig yn mesur 1.57m o ddyfnder x 3.5m o led x 5.8m o uchder a byddai'r strwythur un llawr yn y cefn yn mesur 6m o led x 7.9m o ddyfnder x 4.7m o uchder.

Byddai'r adeilad arfaethedig yn cynnwys cegin/ardal fwyta cynllun agored, ystafell fyw, parlwr bach, swyddfa, ystafell amlbwrpas, toiled a chawod a 4 ystafell wely, 2 gydag ystafell ymolchi en-suite ac ystafell ymolchi teuluol ar y llawr cyntaf.

Byddai'r gweithdy arfaethedig hefyd yn cynnwys ffurf to talcen, wedi'i orffen mewn deunyddiau tebyg i'r annedd arfaethedig a byddai'n mesur 29.5m o ddyfnder x 11.9m o led x 6.5m o uchder.

Deallir bod y gweithdy arfaethedig wedi'i ddylunio i ymateb i ofynion y busnes a dal offer amaethyddol gan gynnwys trelars a chloddiwr 1.5 tunnell.

## **CYD-DESTUN POLISI**

### **POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO CENEDLAETHOL:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio

### **POLISIAU CYNLLUNIO LLEOL:**

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022)

S04 – Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill

LU02 – Gofynion sy'n ymwneud â phob datblygiad preswyl

DM06: Dylunio a Chreu Lle o safon uchel

DM09: Dylunio a Symud

DM10: Dylunio a Thirweddu

DM17: Y Dirwedd yn Gyffredinol

### **YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

Priffyrdd, Gwasanaethau technegol – Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Draenio Tir, Gwasanaethau technegol – Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

Cyfoeth Naturiol Cymru – Nid oes gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig fel y'i cyflwynwyd, yn darparu cyfarwyddyd mewn perthynas â draenio dŵr budr ac atal llygredd pe bai caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

Dŵr Cymru – Dim gwrthwynebiad

Cyngor Cymuned – Mae'r Cyngor yn dymuno cefnogi pâr ifanc sy'n dymuno aros yn eu cymuned a mynd ati eu hunain i adeiladu ar eu tir.

### **SYLWADAU TRYDYDD PARTI**

Derbyniwyd 2 llythyr o gefnogaeth ac 1 llythyr o wrthwynebiad.

Mae un llythyr o gefnogaeth yn argymhell cymeradwyo yng ngoleuni elfen fusnes y cais a'i gyfraniad lleol posibl. Mae'r ail llythyr o gefnogaeth yn amlinellu nodiadau y dylid cefnogi'r cais gan fod y safle ehangach yn eiddo i deulu sydd wedi aros yno ers cenedlaethau.

Mae'r un llythyr o wrthwynebiad yn honni nad yw'r cynnig yn cael ei gefnogi gan bolisi cynllunio TAN6. Mae'r llythyr hefyd yn tynnu sylw'r ACLI at y ffaith bod y fenter ffermio eisioes wedi elwa o ganiatad cynllunio yn y gorffennol ar gyfer annedd gweithiwr amaethyddol ar y fferm.

### **YSTYRIAETHAU MATEROL**

#### **DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.



## DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol i bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, nac ydyw'n cael unrhyw effaith arnynt, yn fwy nag unrhyw berson arall.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## CASGLIAD

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi, os oes angen rhoi sylw i'r cynllun datblygu at ddibenion unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Ceisir caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu annedd o dan bolisiâu TAN6. Cyflwynwyd y cais gydag Arfarniad Mentrau Gwledig yn unol â pharagraff 4.7 o TAN6.

Mae polisi CDLI S04 yn nodi bod 'lleoliadau eraill' yn amhriodol ar gyfer datblygu tai oni bai eu bod yn bodloni angen tai fforddiadwy sydd heb ei ddiwallu neu'n diwallu angen am annedd menter wledig yn unol â TAN6.

Mae polisiâu cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i dai newydd a datblygiadau newydd eraill yng nghefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau sefydledig, gael eu rheoli'n llym, a bod angen cyfiawnhad arbennig dros dai newydd ynysig yng nghefn gwlad agored yn erbyn y profion fel yr amlinellir yn TAN6.

Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn erbyn profion TAN6 fel yr amlinellir isod.

## Prawf Swyddogaethol

Mae'r prawf swyddogaethol yn mynd i'r afael â'r angen am weithiwr preswyl i'r fenter weithredu'n briodol.

Bydd yr angen swyddogaethol presennol yn hanfodol er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol, i un neu ragor o weithwyr fod wrth law y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r prawf yn ymwneud â'r hyn sy'n angenrheidiol yn hytrach nag yn ddymunol, gan adlewyrchu'r egwyddor polisi y dylid osgoi datblygiad diangen yng nghefn gwlad agored.

Mae p'un ai yw'r cynnig yn bodloni'r prawf swyddogaethol ychydig yn fwy cymhleth na chais arferol ar gyfer ail annedd ar fferm sefydledig, oherwydd yn yr achos hwn, bydd yr annedd arfaethedig 0.2 milltir o brif safle'r fferm. Byddai graddfa'r fenter yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys y fferm, podiau glampio a busnes yr ymgeisydd yn awgrymu y gallai fod angen swyddogaethol i rywun fyw ar y safle yn agos at ble mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch ffermio yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r fferm eisioes yn elwa o annedd gweithiwr amaethyddol nad yw'n cael ei feddiannu gan weithiwr amaethyddol ar hyn o bryd. O ganlyniad, barn yr Adran Gynllunio yw nad yw ychwanegu tŷ annedd arall yn angenrheidiol, er gwaethaf y ffaith fod CLEUD wedi cael ei ganiatau mewn perthynas â thorri'r amod preswyliaeth amaethyddol a osodwyd.

Amlinellir yn yr arfarniad ariannol a gyflwynwyd y bydd un o bartneriaid y fenter a'i deulu yn byw yn yr annedd menter wledig arfaethedig er mwyn parhau i weithio gyda'i dad ar y fferm deuluol yn ogystal â chael ei fusnes ei hun yn datblygu a chynnal adeiladau amaethyddol. Mae'r arfarniad yn mynd ymlaen i ddatgan bod rhieni'r ymgeisydd yn byw ar y fferm ond ar hyn o bryd mae'r ymgeisydd a'i deulu yn byw 20 munud i ffwrdd yn Aberaeron ac felly byddai'r annedd menter wledig arfaethedig yn golygu y gallai'r ymgeisydd ysgwyddo agweddau mwy sylfaenol a llafurddwys ar y busnes yn ogystal â darparu presenoldeb ar y safle ar gyfer y mentrau cyfunol. Mae'n werth nodi fel yr amlinellwyd uchod bod tŷ annedd presennol ar y

safle y gellir eu defnyddio at ddibenion byw ar y fferm.

Roedd yr arfarniad ariannol yn cynnwys asesiad Gofynion Llafur sy'n nodi bod y fenter yn gofyn am o leiaf 2.79 o weithwyr llawn amser i redeg y fenter yn effeithiol.

Ystyrir bod cyfiawnhad digonol wedi'i gyflwyno ynghylch pam y gallai fod angen gweithwyr ychwanegol ar y safle i gynorthwyo gyda menter y fferm a busnes newydd, fodd bynnag mae yna safleoedd presennol y gellir eu defnyddio. Felly, ystyrir bod y cyfiawnhad dros godi annedd newydd yn annerbyniol yn hyn o beth.

### **Prawf Amser**

Fel y trafodwyd uchod, nid yw'r angen swyddogaethol am annedd newydd wedi'i sefydlu o ystyried bod llety presennol ar gael ar y fferm. Rhoddwyd ystyriaeth i nifer y gweithwyr sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y fenter wledig, ac mae graddfa a natur y fenter yn berthnasol yn hyn o beth. Prif elfen y fenter fyddai ffermio, gyda 45 o Fuchod Sugno, 650 o Famogiaid Bridio (Texel), 150 o Anifeiliaid Cadw – 150, 8 o Hyrddod ochr yn ochr â 25 hectar yr un o silwair claddfa a silwair bêls mawr. Byddai'r fenter hefyd yn cynnwys y glampio presennol a busnes newydd yr ymgeisydd ac felly byddai'n parhau i fod yn ddaliad o faint sylweddol.

Mae'r gofyniad llafur ar gyfer daliad o'r fath, fel y'i cyfrifir yn y cyflwyniad yn dod i gyfanswm o 6,146.40 o oriau gwaith safonol, sy'n cyfateb i 2.79 o weithwyr llawn amser. Priodolir y mwyafrif helaeth o'r oriau gwaith safonol i elfen ffermio'r busnes yn hytrach na busnes contractio amaethyddol yr ymgeisydd ei hun.

### **Prawf Ariannol**

Mae'r polisi'n gofyn am dystiolaeth o incwm gwirioneddol gan y busnes i asesu cynaliadwyedd economaidd y busnes wrth ddarparu elw marchnad i'r holl weithredwyr a faint o waith rheoli a llafur sy'n ofynnol, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n codi ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Cyflwynwyd cyfrifon ar gyfer y busnes, gan ddangos elw net bob blwyddyn rhwng 2018 a 2021. Mae'n amlwg bod y fenter yn broffidiol, ac mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos y byddai'r busnes yn parhau i fod yn broffidiol. Mae'r ffaith bod y busnes wedi'i sefydlu ers cyfnod hir wedi'i bwysleisio hefyd, ac mae ymrwymiad clir gan y partneriaid busnes i ddilyn ac ymgymryd â mentrau ffermio a thwristiaeth proffidiol.

Mae polisi TAN6 yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r fenter sydd ar y safle gynhyrchu elw ariannol a fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol i fyw arno a chaniatáu buddsoddiad yn yr annedd ei hun, a gellid buddsoddi'r elw hwn yn yr anheddau presennol sydd ar yr eiddo. Mae'r arfarniad ariannol a gyflwynwyd yn dangos incwm rhesymol i ganiatáu i'r ymgeisydd adeiladu annedd.

Fodd bynnag, er bod y busnes yn cael ei ystyried yn gynaliadwy yn ariannol, ac y byddai trosiannau presennol yn caniatáu buddsoddiad mewn annedd ychwanegol, nid yw hyn ynddo'i hun yn cyfiawnhau'r angen am annedd ychwanegol.

### **Prawf Anheddau Eraill**

Mae'r ymgeiswyr wedi amlinellu yn eu cyflwyniad bod angen lleoli'r annedd ar y safle i fodloni gofynion y fenter.

Mae'r arfarniad ariannol a gyflwynwyd yn dangos bod bythynnod gwyliau ar y fferm yn llawn am lawer o'r amser. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn nodi nad yw'r bythynnod yn addas ar gyfer dai preswyl llawn amser oherwydd bod y maint yn rhy fach i deulu fyw ynddo'n llawn amser a byddai meddiannaeth barhaol yn ei dynnu o incwm y fferm gan ei fod yn gwneud cyfraniad sylweddol at fywoliaeth y teulu.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn honni hefyd nad yw byw mewn pentref cyfagos yn opsiwn ymarferol i'w ystyried oherwydd mae bod yn agos at y busnes fferm a thwristiaeth yn hanfodol.

Yn ystod y cais, cododd yr Awdurdod Cynllunio Lleol fater Bryn Aur gyda'r ymgeiswyr a holodd pam na allai'r tŷ hwn ddarparu ar gyfer anghenion yr ymgeiswyr a pham nad oedd wedi'i ddatgelu fel rhan o'r cais cynllunio. Mewn ymateb, mae'r ymgeiswyr wedi ymateb i egluro bod y byngalo wedi ei etifeddu gan dad a modryb yr ymgeisydd pan fu farw'r famgu. Yna prynwyd y byngalo gan rieni'r ymgeiswyr oddi wrth y fodryb. Mae'r ymgeiswyr wedi egluro ymhellach bod y byngalo'n cael ei etifeddu gan chwaer yr ymgeisydd nad yw'n ymwneud â'r fferm na'r business, a dyna pam y cyflwynwyd CLEUD yn barod ar gyfer ei phreswyl. Mae'r ymgeiswyr hefyd yn dadlau na allai'r eiddo a elwir Bryn Aur gynnwys yr adeilad allanol newydd sy'n ofynnol gan fusnes yr ymgeisydd.

Mewn ymateb fodd bynnag, ac yn unol â'r canllawiau a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 6, ni ddangoswyd pam na ellir defnyddio'r annedd gweithiwr amaethyddol presennol hwn i ddiwallu anghenion y fenter na pham na ellir ad-drefnu trefniadau preswyl i sicrhau bod y llety presennol yn cael ei gadw i ddiwallu anghenion y fenter heb fod angen annedd arall. Ymellach, mae'n ymddangos bod y gofrestr tir yn dangos tir sy'n gysylltiedig â'r eiddo a adnabyddir fel Bryn Aur, sy'n dangos posibilrwydd y gellid ei ddefnyddio ar gyfer adeilad allanol yr ymgeisydd, yn ddarostyngedig ar gael y caniatadau

angenrheidiol wrth gwrs.

I grynhoi, nid yw'r cynnig yn bodloni'r gofynion a'r profion o dan TAN6 ac ni ystyrir bod yr egwyddor o annedd newydd yn dderbyniol, yn bennaf oherwydd bod y fferm eisioes yn elwa o annedd gweithiwr amaethyddol y gellid ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion y fenter.

Mae TAN6 yn glir yn yr ystyr bod yn rhaid darparu tystiolaeth i ddangos nad oes annedd(au) nac adeiladau eraill ar gael i ddiwallu'r angen ac yn anfodus nid yw hyn wedi'i ddangos yn ddigonol yn yr achos hwn.

### **Ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill**

#### **Lleoliad:**

Mae TAN6 yn nodi y dylai lleoliad yr annedd arfaethedig berthyn yn agos i'r gweithgareddau y mae angen amdanynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu y dylid lleoli'r annedd newydd yn agos at adeiladau presennol ac yn achos anheddau ar gyfer mentrau amaethyddol, ni ddylai gael ei ynysu oddi wrth y fferm neu mewn lleoliadau a allai annog darnio fferm.

Yn ystod y cais, gofynnodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) felly ai dyma'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr annedd menter wledig, o ystyried ei lleoliad bant wrth clos y fferm. Gofynnodd yr ACLI a oedd safleoedd eraill mwy addas a oedd yn agosach at y fferm a allai gael eu hystyried yn welliant o ran lleoliad ac effaith ar y dirwedd.

Mewn ymateb, amlygodd yr ymgeisydd y cyfyngiadau topograffig a brofwyd ar y fferm a hefyd bod y safle wedi ei ddewis er mwyn darparu preifatrwydd rhwng eiddo'r rhieni a'r ymgeiswyr.

#### **Maint y Plot:**

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn bryderus bod safle'r cais sydd ag ymyl coch yn gorchuddio'r holl gae y mae safle'r cais ynddo, sy'n cael ei ystyried yn ormodol.

Fodd bynnag, mae'r ymgeiswyr wedi nodi eu parodrwydd i leihau maint y safle yn sylweddol, er nad oes unrhyw gynlliau diwygiedig wedi'u derbyn yn ffurfiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol hyd yma.

#### **Maint yr annedd:**

Mae pryderon hefyd wedi eu mynegi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynglyn â maint y tŷ arfaethedig, ac yn arbennig yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar ei werth, yn enwedig gan fod yr amod ar gyfer annedd gweithwyr menter wledig yn rhaeadru i lawr i eiddo fforddiadwy.

Mae'r ymgeiswyr unwaith eto wedi nodi eu parodrwydd i leihau maint yr annedd, er bod angen trafodeth bellach yn hyn o beth, ynghyd â chyflwyno cynlluniau diwygiedig ffurfiol.

#### **Priffyrdd**

Byddai'r cynnig yn defnyddio'r mynediad presennol. Nid oes gan yr adran briffyrdd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn destun amodau. Cynigir y caniateir darpariaeth parcio a throi y tu blaen i'r annedd arfaethedig. Mae pob lle parcio yn 2.4m o led ac yn 4.8m o hyd.

#### **Casgliad**

Mae'r datblygiad arfaethedig yn gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer annedd newydd ar fenter wledig sefydledig.

Wrth ystyried y cynnig yn ei gyfanrwydd, ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn bodloni gofynion polisïau TAN6 ac felly argymhellir ei wrthod, yn bennaf oherwydd bod y fferm eisioes yn elwa o annedd gweithiwr amaethyddol presennol. Felly nid oes angen tŷ pellach ar y fenter a dylid defnyddio'r eiddo presennol i gartrefu'r gweithiwr menter wledig.

### **Y RHESYMAU A RHODDWDYD GAN YR AELOD LLEOL DROS OFYN I'R CAIS CAEL EI GLYWED GAN Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:**

Fel cynghorydd lleol Ward Llanarth, wnaeth ymgeisydd cais A220035 gysylltu gyda fi cyn rhoi'r cais fewn er mwyn cadw fi yn y darlun. Ar ol trafod y cais, roedd gen i bryderon am faint y ty ond ar ol trafodaeth gyda'r adran rheoli datblygu, gan gynnwys trafodaeth am maint y plot, cytunwyd i leihau maint y ddau.

Cyfeirwyd hefyd at y ffaith fod yna annedd arall ynghlwm gyda fferm rhieni'r ymgeisydd. Dyw'r annedd yma ddim yn dod o dan berchnogaeth yr ymgeisydd o gwbl.

Wrth ystyried yr elfennau yma i gyd, rydw i, fel yr Aelod Lleol yn gwbl gefnogol i'r cais yma, sef y rheswm mae o ger eich bron chi fel Pwyllgor.

Mi fyddai'n bresenol i siarad yn y Pwyllgor rheoli datblygu, felly wna'i ymestyn fwy ar y pwyntiau uchod ac ychwanegol bryd hynny

**ARGYMHELLIAD:**

**Gwrthod** caniatad cynllunio am y rheswm canlynol:

Oherwydd ei leoliad mewn "Lleoliad Arall" a'r ffaith bod llety preswyl ar gael ar y fferm bresennol, nid yw'r annedd newydd arfaethedig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer annedd Menter Wledig newydd ac fe'i hystyrir yn ddatblygiad amhriodol o dan Bolisi CDLI S04 a TAN6.

<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A220035
<b>Derbyniwyd / Received</b>	10-01-2022
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Codi annedd a gweithdy menter wledig.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Fferm Cwmcoedog, Mydroilyn, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7RL
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Cynllunio Llawn
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr a Mrs G a B Davies, Llanerch Y Felin, Heol Llyswen, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0ED
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Rhys ap Dylan (Morgan & Davies), Morgan & Davies, 4 Heol Farchnad, Aberaeron, SA46 0AS

## SITE DESCRIPTION

Fferm Cwmcoedog is set in a rural location, in an elevated position over the adjoining valley. Cwmcoedog farmhouse is a traditional, detached 3 bed dwelling positioned within the original homestead, surrounded by modern and older agricultural outbuildings, part of which have been converted into two holiday lets. The farm lies within an 'other location' for the purpose of the LDP.

The five camping pods permitted under application A120625, lie next to the farmyard to the north east.

The application site is set in a rural location and is located away from the homestead and glamping area, within a 1.29 ha field which slopes downwards in a northerly direction to the north-east of the main farmstead.

The site is further surrounded by agricultural land which is farmed throughout the year and owned by the applicant. A rural enterprise assessment has been submitted alongside this application that stipulates that 64.36ha is farmed and 56.36 hectares is owned with a variety of stocks and crops including suckler cows, breeding ewes, rams and big bale silage.

## RELEVANT HISTORY

D1.413.86 – Outline planning permission for the erection of an agricultural workers dwelling - Pt OS 180, Penlanfach Fields, Cribyn Road, Mydroilyn. Approved, subject to conditions – 26<sup>th</sup> June, 1986. (Known as "Bryn Aur").

D1.913.86 – Approval of reserved matters – Erection of an agricultural workers dwelling – Pt OS 180, Penlanfach, Cribyn Road, Mydroilyn. Approved, subject to conditions – 31<sup>st</sup> October, 1986. (Known as "Bryn Aur").

A120625 - Siting of up to 5 Camping Pods with 1 Wash Pod - Approved Subject to Conditions

A210593 – CLEUD – Occupation of dwelling house in breach of an agricultural condition imposed on planning permission 860413. Certificate granted – 10/08/2021.

Note that the agricultural workers dwelling referred to above is located some 1.8km away from the farmstead, in a south-easterly direction.

## PROPOSED DEVELOPMENT

The proposal seeks full planning permission for the erection of a detached dwelling and workshop. The submitted information indicates that the applicant is the son of the landowner and ultimate farm / tourist accommodation business owner. The applicant owns a separate agricultural contracting business and seeks to construct a dwelling on Cwmcoedog to remain close to the family homestead and farm while continuing to develop his own business.

The proposed dwelling would feature gable pitch design with front porch and single storey rear projections finished with brick and timber cladding. The proposed dwelling would measure 8.4m deep x 16.85m wide x 8.7m high, the proposed porch would measure 1.57m deep x 3.5m wide x 5.8m high and the single storey rear projection would measure 6m wide x 7.9m deep x 4.7m high.

The proposed dwelling would include open plan kitchen/dining area, living room, snug, office, utility room, w/c & shower and 4 bedrooms, 2 with en-suite and family bathroom at first floor level.

The proposed workshop would also feature a gable roof form, finished in similar materials to the proposed dwelling and would measure 29.5m deep x 11.9m wide x 6.5m high.

It is understood the proposed workshop has been designed to accommodate business requirements and agricultural equipment including trailers and a 1.5 tonne digger.

## **POLICY CONTEXT**

### **NATIONAL PLANNING POLICIES AND GUIDANCE:**

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (Edition 11)
- Technical Advice Note 6: Planning for Sustainable Rural Communities (2010)
- Technical Advice Note 12: Design (2009)

### **LOCAL PLANNING POLICIES AND GUIDANCE:**

Ceredigion Local Development Plan (2007-2022)

S04 – Development in Linked Settlements and Other Locations

LU02 – Requirements regarding all residential development

DM06: High Quality Design and place making

DM09: Design and Movement

DM10: Design and Landscaping

DM17: General Landscape

### **CONSULTATION RESPONSES**

Highways, Technical services – No objection subject to conditions

Land Drainage, Technical services – No objection subject to conditions

NRW – Has no objection to the proposed development as submitted. Provided guidance in relation to foul drainage and pollution prevention should planning permission be granted.

Dwr Cymru – No objection

Community Council – The Council wishes to support a young couple who wish to stay in their community and build on their land themselves.

### **THIRD PARTY REPRESENTATIONS**

2 letters of support and 1 letter of objection has been received.

One letter of support, recommends approval in light of the business component of the application and its potential local contribution. The second letter of support outlines notes that the application should be supported as the wider site is owned by a family who have stayed there for generations.

The one letter of objection claims the proposal is not supported by TAN 6 planning policy. The letter also draws the LPA's attention to the fact that the farming enterprise has already benefitted from a grant of planning permission in the past for an agricultural workers dwelling on the farm.

### **OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

#### **CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

#### **EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership.

Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

## **WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

## **CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that:

"If regard is to be had to the development plan for the purposes of any determination to be made under the Planning Acts the determination must be made in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise."

Planning permission is sought for the construction of a dwelling under TAN6 policies. The application has been submitted with a Rural Enterprise Appraisal in line with para 4.7 of TAN 6.

LDP policy S04 states that 'other locations' are inappropriate for housing development unless it satisfies an unmet affordable housing need or meets a need for a rural enterprise dwelling in line with TAN6.

National policies require that new housing and other new development in the open countryside, away from established settlements, should be strictly controlled, isolated new houses in the open countryside require special justification against the tests as outlined in TAN6.

The proposal has been considered against the TAN 6 tests as outlined below.

### **Functional Test**

The functional test addresses the need for a resident worker for the proper functioning of the enterprise.

The existing functional need shall be essential for the proper function of the enterprise, for one or more workers to be readily available at most times. The test is one of necessity rather than desirability, reflecting the policy principle that unnecessary development in the open countryside should be avoided.

Whether or not the proposal meets the functional test is somewhat more complex than a typical application for a second dwelling on an established farm, as in this case, the proposed dwelling is positioned 0.2 miles away from the main farm complex. The scale of the enterprise as a collective including the farm, glamping pods and the applicant's business would indicate that there may be a functional need for someone to live on site close to where the majority of the farming activity takes place. However, the farm already benefits from an agricultural worker's dwelling which is not currently occupied by an agricultural worker. The addition of another dwellinghouse is therefore not deemed necessary, despite the fact that a CLEUD has been granted in relation to the breach of the agricultural occupancy condition imposed.

It is outlined within the submitted financial appraisal that one of the partners of the enterprise and his family will reside at the proposed rural enterprise dwelling to continue to work with his father on the family farm as well as having his own business of developing and maintaining agricultural buildings. The appraisal continues to state that the applicants' parents live on the farm but currently the applicant and his family live 20 minutes away in Aberaeron and therefore the proposed rural enterprise dwelling would allow the applicant to take over the more fundamental and labour-intensive aspects of the business as well as providing an on-site presence for the collective enterprises. It is noteworthy as outlined above that there is an existing dwellinghouse associated with the farm that can be utilised for the function of living on the farm.

The financial appraisal included a Labour Requirements assessment that stipulates that the enterprise requires a minimum of 2.79 full time workers to effectively run the enterprise.

It is regarded that sufficient justification has been submitted as to why additional workers may be required on site to assist with the farm enterprise and new business, however there are existing premises that can be utilised. Therefore, the justification for the erection of a new dwelling is considered unacceptable in this regard.

### **Time Test**

As discussed above, a functional need for a new dwelling has not been established given the availability of existing accommodation at the farm. Consideration has been given to the number of workers to meet the needs of the rural enterprise, for which the scale and nature of the enterprise is relevant. The main element of the enterprise would be farming, with 45 Suckler Cows, 650 Breeding Ewes (Texel), 150 Flock Replacements – 150, 8 Rams alongside 25 hectares each of clamp and big bale silage. The enterprise would also include the existing glamping and the applicant's new business and therefore would remain a substantially sized holding.

The labour requirement for such a holding, as calculated within the submission comes to 6,146.40 total standard man-hours, which equates to 2.79 full time workers. The vast majority of the standard man hours are attributed to the farming element of the business as opposed to the applicant's own agricultural contracting business.

### **Financial Test**

The policy requires evidence of actual income from the business to assess the economic sustainability of the business in providing a market return for all operators and the amount of management and manual labour required, including any cost incurred for the proposed development.

Accounts have been submitted for the business, showing a net profit each year from 2018 to 2021. It is evident that the enterprise is profitable, and the evidence submitted would indicate that the business would remain profitable. Weight has also been given to the fact the business is long standing and there is a clear commitment by the business partners to undertaking and pursuing profitable farming and tourism enterprises.

TAN6 policy clearly states that the enterprise on site must yield a financial return which would be deemed reasonable to live off and allow the investment in the dwelling itself, this could be invested into the existing dwellings on the property. The submitted financial appraisal demonstrates a reasonable income to allow the applicant to build a dwelling.

However even though the business is considered financially sustainable, and current turnovers would allow investment in an additional dwelling, this in itself does not warrant the necessity for an additional dwelling.

### **Other Dwellings Test**

The applicants have outlined within their submission that the dwelling needs to be located on site to meet the requirements of the enterprise.

The submitted financial appraisal indicates that there are holiday cottages on the farm that have high levels of occupancy. The information submitted states that the full time occupation of the holiday cottages is not viable due to the size being too small for a family to reside in full time and permanent occupation would remove these from the farm income as they contribute significantly to the livelihood of the family.

The submitted information also claims that living in a nearby village is not a viable option for consideration, as having to be in close proximity to the farm and tourism business is essential.

During the course of the application, the Local Planning Authority raised the issue of Bryn Aur with the applicants and enquired as to why this dwelling could not accommodate the needs of the applicants and why it hadn't been disclosed as part of the planning application. In response, the applicants have responded to explain that the bungalow was inherited by the applicant's father and aunt when the grandmother passed away. The bungalow was then purchased by the applicants parents from the aunt. The applicants have further explained that the bungalow is being inherited by the applicants sister who is not involved in the farm or business, which is why the CLEUD was submitted in readiness for her occupation. The applicants also argue that the property known as Bryn Aur could not accommodate the new outbuilding which is required by the applicant's own business.

In response however, and as per the guidance found in Technical Advice Note 6, it has not been demonstrated why this existing agricultural workers dwelling cannot be used to meet the needs of the enterprise or why residential arrangements cannot be re-organised to ensure that the existing accommodation is kept available to meet the needs of the enterprise without the need for a further dwelling. Furthermore, the land registry appears to show land associated with the property known as Bryn Aur, which suggests a possibility that it could be used as a base for the applicant's outbuilding, subject to obtaining the necessary consents.

In summary, the proposal fails to meet the requirements and tests under TAN 6 and the principle of a new dwelling is not



considered acceptable, primarily due to the fact that the farm already benefits from an agricultural workers dwelling which could be used to meet the needs of the enterprise.

TAN 6 is clear in that evidence must be provided to demonstrate that there are no other dwelling(s) or buildings that are available to meet the need and unfortunately this has not been adequately demonstrated in this instance.

**Other relevant planning considerations:**

**Siting:**

TAN6 states that the siting of any proposed dwelling should relate closely to the activities for which there is a need. In most cases, this will mean that the new dwelling should be sited in close proximity to existing buildings and in the case of dwellings for agricultural enterprises, should not be isolated from the farmstead or in locations that could encourage farm fragmentation.

During the course of the application, the Local Planning Authority posed the question therefore as to whether or not this is the most suitable location for the rural enterprise dwelling, given its slightly divorced location away from the main farmstead. The LPA asked whether or not there were other more suitable sites which were closer to the farmstead that could be considered instead, as an improvement in terms of siting and landscape impact.

In response, the applicant highlighted the topographical constraints experienced at the farm and also that the site had been chosen in order to provide privacy between the parents and applicants properties.

**Large Plot Size:**

The Local Planning Authority are concerned that the application site edged in red covers the entire field in which the application site is situated, which is considered to be excessive.

The applicants have however indicated their willingness to significantly reduce the size of the application site, although no revised plans have been formally received by the Local Planning Authority to date.

**Size of dwelling:**

Concerns have also been expressed by the Local Planning Authority in respect of the size of the proposed dwelling, and in particular the effect this would have on its value, especially as the occupancy condition for a rural enterprise workers dwelling cascades down to an affordable property.

The applicants have again indicated their willingness to reduce the size of the dwelling, although further negotiation is required in this regard, along with the submission of formal revised plans.

**Highway consideration**

The proposal would utilise the existing access. Highways have no objection to the proposed development subject to conditions. It is proposed that parking and turning provision will be allowed for to the front of the proposed dwelling. Each parking space is 2.4m wide and 4.8m in length.

**Conclusion**

The proposed development seeks planning permission for a new dwelling on an established rural enterprise.

On considering the proposal in its entirety, on balance it is considered the proposed development does not meet the requirements of TAN6 policies and as such is recommended for refusal, primarily due to the fact that the farm already benefits and has access to an existing agricultural workers dwelling. There is therefore no need for a further dwelling at the enterprise and use should be made of the existing property to house the rural enterprise worker.

**REASONS GIVEN BY THE LOCAL WARD MEMBER FOR REQUESTING THAT THE APPLICATION BE HEARD BY THE DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE:**

As a local councillor for Llanarth Ward, the applicant of application A220035 contacted me before submitting the application in order to keep me in the picture. After discussing the application, I had concerns about the size of the house but after discussion with the development management department, including discussion about the size of the plot, it was agreed to reduce the size of both.

Reference was also made to the fact that there is another dwelling attached to the applicant's parents' farm. This dwelling does not come under the applicant's ownership at all.

When considering all these elements, I, as the local member am fully supportive of this application, which is the reason it is

before you as a Committee.

I will be present to speak at the Development Management Committee, so I will extend more on the above and make additional points then.

**RECOMMENDATION:**

That planning permission be **refused** for the following reason:

1. By reason of its siting in an Other Location and the availability of alternate residential accommodation within the existing farmstead, the proposed new dwelling fails to meet the criteria for a new Rural Enterprise dwelling and is considered inappropriate development under LDP Policy S04 and TAN6.



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A220250
<b>Derbyniwyd / Received</b>	27-03-2022
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Erection of a detached block of flats, six storeys in height (sixth storey within roof space), containing 24 units with associated car parking and communal amenity spaces.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Area of land adjacent to the Brynderw Building, Stanley Road, Aberystwyth. SY23 1LB
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Full Planning
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	Mr D J Evans, Cae Pant, Rhydyfelin, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4PY
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Mark Bedder (BCD-Architecture), Creative Units 2, Arts Centre Aberystwyth University Campus, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3GL

## Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae Bryn Derw yn adeilad gweddol fodern pum llawr yn ardal Buarth yn Aberystwyth. Mae'r safle wedi'i amgylchynu gan anheddau preswyl i'r gogledd, ardal goediog i'r dwyrain, bloc uchel o swyddfeydd i'r de ac adeiladau Prifysgol Aberystwyth i'r gorllewin. Defnyddiwyd yr adeilad yn flaenorol gan y Brifysgol fel llety ac roedd yn cynnwys 146 o ystafelloedd gwely. Roedd yr adeilad wedi bod yn wag am nifer o flynyddoedd ond ers hynny mae wedi cael ei drawsnewid i 30 o fflatiau. Mae'r safle o fewn ardal gadwraeth y dref.

## Hanes Cynllunio

A900351	Newid defnydd i swyddfeydd	Cymeradwywyd gydag Amodau 30/04/1990
A951196	Newid defnydd o swyddfeydd i ddarparu llety gyda 121 fflat un ystafell a fflat warden	Tynnwyd yn ôl 14/02/1996
A960835	Newid defnydd, addasu ac ymestyn i 30 o fflatiau.	Cymeradwywyd 27/11/1996
A210388	Amrywio amod 2 y caniatâd cynllunio 960835 (cynlluniau diwygiedig).	Cymeradwywyd gydag Amodau 07/07/2021

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais sy'n cael ei ystyried yma yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer adeiladu datblygiad preswyl o fewn y parcel o dir sy'n gysylltiedig â Brynderw, Ffordd Stanley, Aberystwyth. Mae hyn yn ychwanegol at y 30 o anheddau preswyl sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.

Wrth benderfynu ar y cais, mae maint yr adeilad wedi'i ostwng o un llawr. Mae hyn wedi arwain at ddiddymu dwy uned o'r cynllun.

Mae cyfanswm o 24 o fflatiau bellach yn cael eu cynnig dros chwe llawr (y chweched llawr yng ngofod y to) gyda'r disgrifiad o'r datblygiad wedi'i ddiweddarau'n unol â hynny (drwy gydsyniad y ddwy ochr) ac ar y sail hon y penderfynwyd ar y cais.

Mae'r gymysgedd tai yn cynnwys 4 fflat symudedd 2 ystafell wely ar y llawr gwaelod gyda gweddill y fflatiau'n unedau 2 ystafell wely. Mae gan bob uned gegin/lolfa/ystafell fwyta cynllun agored.

Byddai gan y fflatiau ar yr ochr dde-orllewinol falconi.

Yn allanol, byddai'r adeilad yn cael ei orffen gyda rendrad llyfn gydag ardaloedd cyferbyniol o gladin. Byddai'r manylion gwaith saer yn cael eu gorffen mewn llwyd tywyll (anthracite), a byddai balwstrad y balconïau yn cael ei orffen mewn gwyrdd. Byddai'r to ar oledf yn cael ei orffen mewn llechen naturiol.

Ni chynigir unrhyw welliannau i'r mynediad presennol i'r safle sydd oddi ar Ffordd Stanley.

Yn allanol, mae'r cynllun tirlunio a gyflwynwyd yn dangos sut bydd coed a gwrychoedd newydd brodorol yn cael eu plannu o flaen yr adeilad a'r tu ôl iddo. Bydd man amwynder ar gael hefyd yng nghefn yr adeilad i breswylwyr presennol a rhai'r dyfodol a bydd meinciau picnic yn cael eu darparu.

Mae ardaloedd dan orchudd ar gyfer storio sbwriel yn cael eu cynnig hefyd.

## **POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM07 Ardaloedd Cadwraeth
- DM08 Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

- DM19 Tirweddau Hanesyddol a Diwylliannol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- LU24 Darparu Mannau Agored Newydd
- S01 Twf Cynaliadwy
- S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol
- S05 Tai Fforddiadwy
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cymuned a'r Gymraeg 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ebrill 2014
- Taflen Gymorth Canllawiau Cynllunio Atodol Cymuned a'r Gymraeg 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad Trafnidiaeth 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio 2015

- Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 2014
- Taflenni Cymorth Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 2014
- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)
- TAN10 Gorchmynion Cadw Coed (1997)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN16 Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy(2006)
- TAN20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur(2009)

## **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

### **DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar droseddau ac anrhefn yn ei ardal a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### **DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabled; aillbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhodddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir nad oes gan y datblygiad arfaethedig unrhyw oblygiadau sylweddol i bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, nac ydyw'n cael effaith arnynt, yn fwy nag unrhyw berson arall.

## **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn wrth ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## **YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**

Cyngor Tref Aberystwyth – Gwrthwynebu'n Gryf

Priffyrdd – Dim Gwrthwynebiad yn Destun Amodau

Draenio Tir – Angen cymeradwyaeth System Ddraenio Gynaliadwy

Ecoleg – Dim Gwrthwynebiad yn Destun Amodau

Cyfoeth Naturiol Cymru – Dim Gwrthwynebiad yn Destun Amodau

Dŵr Cymru – Dim Gwrthwynebiad yn Destun Amodau

Tân ac Achub Canolbarth Cymru – Dim Gwrthwynebiad yn Destun Amodau

Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn Gwrthwynebu ar sail y traffig a gynhyrchir, gorddatblygu'r safle, colli mannau gwyrdd a choed, diffyg lle i storio sbwriel, diffyg llefydd parcio, dim darpariaeth trafndiaeth gynaliadwy, dim tai fforddiadwy a diystyru ymgynghoriad cyn ymgeisio. Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn gofyn hefyd, petai caniatâd yn cael ei roi, bod amod yn cael ei atodi yn sicrhau bod yr unedau'n cael eu defnyddio fel tai annedd, yn cael eu defnyddio fel unig neu brif breswylfeydd ac nid fel lleu gwylliau.

Derbyniwyd cyfanswm o 23 o wrthwynebiadau gan 17 trydydd parti, gyda sylwadau'n adleisio'r pryderon a godwyd gan Gyngor Tref Aberystwyth ond yn cynnwys pryderon ynghylch effaith weledol, effaith ecolegol, sefydlogrwydd tir, cyd-gloi, sŵn, effaith ar ardal gadwraeth, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y posibilrwydd o ddatblygiadau pellach ar y safle yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes wedi'i gynnig yma.

Materion sy'n ymwneud ag effaith y datblygiad arfaethedig ar gadernid strwythurol adeiladau cyfagos yw materion yr ymddrinnir â hwy o dan y Rheoliadau Adeiladu ac fel materion preifat rhwng y partiön sy'n ymwneud yn uniongyrchol, ac nid ydynt yn effeithio ar rinweddau cynllunio'r cynigion sy'n cael eu hystyried.

## **CASGLIAD**

Mae adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi os oes angen rhoi sylw i'r cynllun datblygu at ddiben unrhyw benderfyniad sydd i'w wneud o dan y Deddfau cynllunio, rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn unol â'r cynllun oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn nodi fel arall.

## **Egwyddor Datblygu**

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cydnabod rôl Aberystwyth fel ardal twf rhanbarthol ar gyfer rhanbarth y canolbarth.

Mae Polisi S01 y CDLI yn ymwneud â Thwf Cynaliadwy ac mae hyn yn nodi ei bod yn ofynnol i tua 6,544 o anheddau gael eu datblygu erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2022. Strategaeth y CDLI yw y bydd 51% o ddatblygiadau tai newydd ar draws y Sir yn digwydd yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol, dros gyfnod y cynllun, bydd 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig a bydd 25% mewn aneddiadau a lleoliadau eraill (gan gynnwys aneddiadau cyswllt).

Mae safle'r cais o fewn ffin aneddiad diffiniedig Aberystwyth, sy'n cael ei dynodi'n Ganolfan Gwasanaethau Trefol yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Mae Polisi S02 y CDLI yn ymwneud â 'Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol' ac mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod pob datblygiad o fewn terfynau diffiniedig y Canolfannau Gwasanaethau Trefol. Yn Aberystwyth, mae'n ofynnol i ddatblygiad gyfrannu hefyd at gynnal ei statws fel anheddiad o bwys cenedlaethol ac fel canolfan strategol i'r Canolbarth ac mae'n cefnogi amcanion a chynlluniau gweithredu cyfredol sy'n ymwneud â'i statws o ran Adfywio Strategol.



Cyfanswm y gofyniad ar gyfer darparu tai yn Aberystwyth fel y nodir yn y CDLI yw 1877. Mae ffigurau diweddaraf (Ionawr 2023) CDLI ar gyfer monitro tai yn dangos mai dim ond 583 o anheddau sydd wedi'u cwblhau yn y Ganolfan Gwasanaethau Trefol gyda chaniatâd ar gyfer 294 yn rhagor o anheddau. Felly, gan gyfrif dymchweliadau ac addasiadau (-71) mae lle i 1071 yn rhagor o anheddau eraill yn Aberystwyth. O'r herwydd, ystyrir y byddai'r cynigion yn cydymffurfio â Pholisïau S01 a S02 y CDLI a derbynir yr egwyddor o ddatblygu.

## **Y Gymraeg**

Ar gyfer polisi DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg, mae angen darparu Asesiad o'r Effaith ar Gymuned a'r Effaith Ieithyddol mewn perthynas â datblygiadau tai mewn canolfannau gwasanaethau lle byddai'r datblygu'n digwydd yn gyflymach na'r hyn y cyfeirir ato yn natganiad y Grŵp Aneddiadau.

Ni fyddai'r datblygiadau tai arfaethedig yn digwydd yn gyflymach na'r hyn y cyfeirir ato yn Natganiad y Grŵp Aneddiadau, ac o'r herwydd ystyrir y gellir cyflawni'r datblygiad heb effeithio'n negyddol ar broffil Cymunedol ac Ieithyddol Aberystwyth.

## **Tai Fforddiadwy**

Mae Polisi S05 – 'Tai Fforddiadwy' yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad preswyl ddarparu tai fforddiadwy ar y safle neu gyfraniad tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy. Yn yr achos hwn, er mwyn bodloni polisi S05, mae'n ofynnol i nifer sy'n cyfateb i 4.8 annedd fforddiadwy gael ei ddarparu naill ai ar y safle neu drwy swm gohiriedig.

Cyflwynir gwybodaeth ariannol i gefnogi'r cais, sy'n dangos nad yw'r cynllun yn hyfyw wrth sicrhau datblygiad 4.8 uned.

Felly, mae'r cais sy'n cael ei ystyried yma yn ceisio darparu 4 uned tai fforddiadwy ar y safle, heb unrhyw

swm gohiriedig yn daladwy. Bydd pob un o'r pedair uned fforddiadwy ar y llawr gwaelod a byddant yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn gyntaf, bydd yr unedau fforddiadwy yn cael eu dyrannu fel Rhenti Canolradd gyda'r opsiwn o fewn cytundeb A106 i newid i Ar Werth am Bris Gostyngol. Ymgynghorwyd â'r gofrestr anghenion tai fel rhan o ystyriaeth o'r cais ac ystyrir bod y cymysgedd hwn o dai fforddiadwy yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

## **Effaith ar Amwynder Preswyl**

Mae Maen Prawf 7 Polisi DM06 yn ceisio diogelu amwynder deiliaid eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygon. Mae eiddo preswyl yn agos iawn at y safle.

Mae'r cynlluniau gweddlyn a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos na fydd yr eiddo yn fwy na chrib y bloc o fflatiau presennol ac oherwydd topograffi'r tir bydd y safle islaw eiddo cyfagos ar Goed y Buarth.

Mae cynllun safle yn dangos sut y gellid gosod y bloc o fflatiau arfaethedig er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at unrhyw niwed andwyol i amwynder preswyl preswylwyr presennol.

Ystyrir hefyd y gallai'r datblygiad arfaethedig gael ei gyflawni er mwyn sicrhau pellter gwahanu digonol rhwng ystafelloedd cyfanheddol yr anheddau unigol fel y nodir gyda Chanllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio Ceredigion.

Nid oes unrhyw reswm i gredu y byddai lleoliad, dyluniad neu adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau sŵn afresymol ar eiddo cyfagos. Pe bai gweithrediadau adeiladu yn mynd yn afresymol, byddai trigolion lleol yn gallu troi at ddeddfwriaeth iechyd yr amgylchedd.

## **Dylunio ac Effaith Weledol**

DM06 yw polisi creu lle y CDLI ac mae'n nodi y dylai Datblygiad roi ystyriaeth lawn i gyd-destun ei leoliad a'i amgylchedd a chyfrannu'n gadarnhaol ato. Dylai datblygiad adlewyrchu dealltwriaeth glir o egwyddorion dylunio, y gyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol a dylai hyrwyddo dylunio arloesol gan roi sylw dyledus yr un pryd i nodweddion unigryw lleol a threftadaeth ddiwylliannol o ran ffurf, dyluniad a deunydd. Dylai cynigion datblygu ategu'r safle a'i amgylchedd hefyd o ran cynllun, parchu golygfeydd o'r safle ac i'r safle, gan gynhyrchu ffurf gydlynus mewn perthynas â graddfa, uchder a chyfran y ffurf adeiledig bresennol.

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio ac Amgylchedd Adeiledig y mae'r cyngor wedi'i fabwysiadu yn rhoi DM06 ar waith ac mae'n rhoi arweiniad ar y materion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu adeiladau amrywiol. Mae Adran 2 y Canllawiau yn ystyried sut dylai cynigion ymateb i Gymeriad Ceredigion. Mae Ceredigion yn ffodus o gael hanes cyfoethog, sy'n aml yn cael ei adlewyrchu yn nifer o'i adeiladau a'i lefydd. Er mwyn gwella ansawdd amgylchedd adeiledig Ceredigion, mae'n hanfodol bod datblygiad newydd yn seiliedig ar asesiad trylwyr o gymeriad lleol.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad ar yr elfennau perthnasol i'w hystyried wrth ddylunio cynnig sy'n ymateb i Gymeriad lleol Ceredigion, a phobl a chysylltedd yw dwy o'r pedair prif elfen bresennol i'w hystyried.

Ystyrir bod maint a dyluniad y datblygiad arfaethedig yn adlewyrchu maint a dyluniad adeilad presennol Brynderw. Ystyrir lleoliad y datblygiad arfaethedig i ategu'r safle a'r ardal gyfagos drwy ddarparu canolbwynt wrth i bobl groesi'r safle.

Ystyrir y byddai dyluniad ac ymddangosiad gweledol y datblygiad arfaethedig yn cael ei wella ymhellach gan gynllun tirweddu a fyddai'n cael ei sicrhau drwy amod.

### **Effeithiau Treftadaeth**

Mae'r safle yn ardal gadwraeth Canol Tref Aberystwyth ac mae Adeilad Edward Davies, sy'n adeilad rhestredig Gradd II\*, union wrth ymyl y safle. Mae'r Adeilad wedi'i restru am ei fod ymhlith y labordai cemegol cynharaf pwrpasol i gael eu hadeiladu unrhyw le yn y byd a'r cyntaf yng Nghymru. Caiff nifer fawr o adeiladau rhestredig ychwanegol eu nodi hefyd fel rhai sydd o fewn cyffiniau'r safle gan gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, adeilad rhestredig Gradd II\*.

Mae'r asedau treftadaeth hyn yn benodol mewn lleoliadau amlwg ar ochr y bryn ac maent i'w gweld yn hawdd o Goedlan y Parc, un o'r prif lwybrau i mewn i ganol tref Aberystwyth.

Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig wedi'i ddylunio'n sensitif fel nad yw'n cystadlu â'r ased o ran amlygrwydd ar ochr y bryn, yn hytrach mae wedi'i ddylunio fel pe bai'n israddol i'r Adeilad Brynderw presennol. O'r herwydd, ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn achosi niwed andwyol i leoliad yr adeiladau rhestredig hyn na'r ardal gadwraeth ehangach.

### **Dwysedd**

Mae'r ffin llinell goch a ddarperir yn mesur tua 0.360 hecтар. Yn seiliedig ar ddatblygu 24 uned, mae hyn yn cyfateb i ddwysedd o tua 66 annedd yr hecтар. Ystyrir bod hyn yn briodol yn unol â pholisi LU06 y CDLI, lle argymhellir dwysedd o 30-80 uned yr hecтар yn y craidd trefol, fodd bynnag dylid nodi hefyd o dan Bolisi LU24:

### **Mannau Agored Cyhoeddus**

mae darparu Mannau Agored Newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad ar safleoedd heb eu dyrannu i ddarparu man agored os yw'r datblygiad yn arwain at ddarparu cyfanswm o fwy na 10 ystafell wely.

Dylid darparu man agored yn unol â meincnodau a nodwyd ym Mhecyn Cymorth Gofod Gwyrdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) a Safonau Meysydd Chwarae Cymru (FIT). Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ceredigion yn rhoi eglurder pellach ar y ddarpariaeth ofynnol ar gyfer manau agored a nodir fel 2.8ha fesul 1000 o bobl. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfanswm y man agored sydd ei angen fel a ganlyn:

**2.8ha fesul 1000 o'r boblogaeth 2.8/1000 \* nifer yr ystafelloedd gwely = gofod cyffredinol.**

Mae'r datblygiad arfaethedig yn darparu ar gyfer 48 ystafell wely. O ddefnyddio'r fformiwla uchod mae angen 0.13 hecтар o Fannau Agored Cyhoeddus fel rhan o'r cynnig datblygu.

Ystyrir y gellir darparu ar gyfer y lefel hon o fannau agored cyhoeddus o fewn y tir y tu ôl i adeilad presennol Brynderw.

### **Priffyrdd**

Mae Polisi DM03 yn cynghori y bydd datblygiad yn cael ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio. Mae Polisi DM03 hefyd yn nodi y dylid darparu manau parcio fel rhan o gynigion datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Ceredigion.

Byddai mynediad i gerbydau i'r datblygiad arfaethedig ar hyd Ffordd Stanley a bydd cyfanswm o 54 o lefydd parcio ceir yn cael eu darparu i wasanaethu'r cyfanswm arfaethedig o 54 o fflatiau (y 30 presennol a'r 24 sydd mewn golwg yn y cais hwn).

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwneud darpariaeth hefyd i gerbydau droi ar y safle gan allu mynd i mewn ac allan o'r safle heb orfod gyrru am yn ôl. Mae'r cynnig yn cael ei ystyried felly i gyd-fynd â'r safonau parcio a fabwysiadwyd fel y'u nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol o ddarparu rhwng 0.5 ac 1 lle parcio ceir fesul fflat.

Mae Polisi DM04 yn tynnu sylw ymgeiswyr at yr angen i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylid cyflawni hyn drwy ddarparu cysylltiadau â llwybrau presennol o ddatblygiadau newydd, ail-sefydlu seilwaith sydd bellach yn segur lle bydd yn gwasanaethu datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy a darparu gwell iechyd ac ansawdd bywyd drwy ymgorffori nodweddion mewn datblygiad sy'n manteisio ar gysylltiadau â dulliau teithio nad ydynt yn geir i gludo pobl a nwyddau.

Mae'r safle'n agos at ardal ganolog Aberystwyth ac mae'r Stryd Fawr yn cynnig arlwy cynhwysfawr yng nghanol y dref gan gynnwys siopau dillad, caffis i gael paned a brechdanau, siopau elusen a fferyllfa ochr yn ochr â sawl banc a chymdeithas adeiladu a swyddfa bost. Hefyd, mae Parc Manwerthu Ystwyth a pharc manwerthu Rheidol o fewn pellter cerdded hawdd i'r safle ac yn darparu nifer o amwynderau gan gynnwys archfarchnadoedd, siop anifeiliaid anwes a sawl siop ddillad a

nwyddau cartref.

Mae cyfleoedd da iawn i gerdded yn yr ardal leol gyda'r rhwydwaith ehangach o briffyrdd yn darparu llwybrau troed gyda goleuadau stryd.

Mae Gorsafoedd Bysiau a Rheilffordd Aberystwyth o fewn 6 munud ar droed o'r datblygiad arfaethedig ac yn cynnig gwasanaethau rheolaidd i gyrchfannau yn lleol ac mewn mannau eraill yn y rhanbarth.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol ar y cais ac mae'n derbyn data a dadansoddiad yr arolwg traffig sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Trafnidiaeth a gyflwynwyd (gan Acstro Ltd, dyddiedig Hydref 2022), ac nid yw'n cynnig gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn destun amodau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru wedi ystyried y cais ac nid oes ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud mewn perthynas â Mynediad i Gerbydau Argyfwng, na mynediad at gyflenwadau dŵr.

Ar y cyfan, ystyrir na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar ddiogelwch a symudiadau priffyrdd, ac mae digon o gapasiti o fewn y rhwydwaith priffyrdd presennol i amsugno'r traffig sy'n cael ei greu o ganlyniad i'r datblygiad hwn, ac felly mae'n cydymffurfio ag egwyddorion creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol, TAN18, a pholisïau DM03 a DM04 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.

## **Ecoleg**

Mae DM14 a DM15 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a diogelu safleoedd pwysig gwarchoddedig. Caniateir safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau a warchodir naill ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu ar y cyd, dim ond os gellir dangos bod y cynnig yn cyfrannu at amddiffyn, wella neu reoli'n gadarnhaol y safle, y cynefin neu'r rhywogaethau, neu mewn amgylchiadau penodol eraill a nodir yn y polisi. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar fioamrywiaeth yn darparu canllawiau ar asesu effaith datblygiad ar safleoedd dynodedig neu rywogaethau a warchodir.

Cynhaliwyd Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol gan gynnwys arolwg cynefin estynedig ym mis Rhagfyr 2021. Y cynefinoedd a fydd yn cael eu heffeithio'n syth gan y datblygiadau arfaethedig yw coetir a phrysgwydd cymysg a blannwyd, glaswelltir sydd wedi'i wella a wal. Roedd y cynefin yn addas ar gyfer poblogaethau o adar bridio, moch daear a draenogod. Roedd y cynefin ehangach yn addas hefyd ar gyfer ymlusgiaid.

Mae'r cynefinoedd sydd wedi'u nodi o werth ecolegol isel. Fodd bynnag, mae'r cysylltedd â choetir cyfagos yn cyfrannu at ei werth ecolegol.

Y coed sydd i'w tynnu oddi yno er mwyn hwyluso'r datblygiad yw pinwydd Corsica ac nid ydynt yn gynhenid i'r Deyrnas Unedig. Ni ystyrir bod gan y coed sydd i'w tynnu oddi yno nodweddion o werth ecolegol.

Mae DM22 y CDLI yn caniatáu i goed gael eu colli pan fo manteision cynnig yn gorbwysu'r niwed, a phan fo cynigion yn gallu darparu cynllun digolledu drwy rywogaethau brodorol a fyddai'n helpu i sicrhau enillion priodol o ran bioamrywiaeth.

Ymgynghorwyd â'r Ecolegydd Cynllunio Sirol wrth ystyried y cais cynllunio ac nid yw'n codi unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn destun amodau.

## **Draenio Tir a pherygl Llifogydd**

